

Dechrau Ysgol

Canllaw i bolisi a threfniadau derbyn 2024-25



Dechrau Ysgol

Canllaw i bolisi a threfniadau derbyn 2024-25

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Rhan 1 – Dyddiadau Pwysig	4
Rhan 2 – Polisi Mynediad	7
Meini Prawf Gordanysgrifo	10
Adran 3 – Rhestr o Ysgolion	19
Rhan 4 – Blynyddoedd Cynnar	44
Rhan 5 – Cwricwlwm Ysgol	52
Rhan 6 – Iaith Gymraeg.....	58
Section 7 – Cwynion	62
Section 8 – Cynhwysiad	63
Section 9 – Health	65
Section 10 – Cludiant Ysgol.....	67
Section 11 – Gwasanaeth Lles Addysg	77
Section 12 – Gwasanaethau Addys gar draws Gymuned	79
Section 13 – Gwasanaethau Prydau Ysgol	81

Cyflwyniad

Nod y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol yw sicrhau mynediad cyfartal trwy hyrwyddo a chefnogi datblygiad addysg gynhwysol a rhoi ymrwymiad i ddarparu addysg a gwasanaethau o ansawdd o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y llyfryn hwn yn ymwneud â'r flwyddyn ysgol 2023/2024 ac mae'n gywir adeg ei gyhoeddi. Er iddo gael ei gyhoeddi i ddechrau i gydymffurfio â gofynion Deddfau Addysg 1980 -1998, a rheoliadau priodol sy'n deillio ohonynt, mae hefyd yn nodi manylion mewn perthynas â llawer o agweddau ar addysg yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae gan ysgolion eu prospectws eu hunain, ac anogir rhieni i siarad â'r Pennaeth er mwyn cael mwy o wybodaeth am yr ysgol. Bydd y Swyddogion Addysg yn Nhŷ Penallta hefyd yn helpu pryd bynnag y bo angen.

Y gobaith yw y bydd y wybodaeth am drefniadau derbyniadau ac apeliadau, ynghyd â'r wybodaeth am bob ysgol unigol, yn cynorthwyo rhieni wrth ddewis ysgol.

Hoffai'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol sicrhau rhieni y bydd y Cyngor yn delio â phob cais mewn modd teg a chyfartal, gan ddefnyddio'r meini prawf a amlinellir yn y llyfryn hwn.



Rhan 1 – Dyddiadau Pwysig



Dyddiadau Tymor a Gwyliau Ysgol 2024-25

Tymor y Hydref 2024

Tymor yn dechrau dydd Llyn 2 Medi 2024

Hanner tymor yn dechrau dydd Llyn 28 Hydref 2024

Hanner tymor yn dod i ben dydd Gwener 1 Tachwedd 2024

Tymor yn dod i ben dydd Gwener 20 Rhagfyr 2024

Tymor y Gwanwyn 2025

Tymor yn dechrau dydd Llyn 6 Ionawr 2025

Hanner tymor yn dechrau dydd Llyn 24 Chwefror 2025

Hanner tymor yn dod i ben dydd Gwener 28 Chwefror 2025

Tymor yn dod i ben dydd Gwener 11 Ebrill 2025

Tymor yr Haf 2025

Tymor yn dechrau dydd Llyn 28 Ebrill 2025

Hanner tymor yn dechrau dydd Llyn 26 Mai 2025

Hanner tymor yn dod i ben dydd Gwener 30 Mai 2025

Tymor yn dod i ben dydd Llyn 21 Gorffennaf 2025

Yn ychwanegol i'r dyddiadau uchod, mae chwech diwrnod hyfforddi staff ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn pob ysgol. Dylai rhieni ofyn i'r Pennaeth pryd y mae'r diwrnodau hyfforddi yn debygol o fod.



Amserlen ar gyfer derbyniadau i ysgolion uwchradd mis Medi 2024

Admission to Secondary School

Ffurflenni ar gael arlein 1 Medi 2023

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 27 Hydref 2023

Rhieni yn cael eu hysbysu o ganlyniad 1 Mawrth 2024*

Derbyn i Ysgol Gynradd

Ffurflenni ar gael arlein 1 Medi 2023

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 15 Rhagfyr 2023

Rhieni yn cael eu hysbysu o ganlyniad 16 Ebrill 2024*

Derbyn I Feithrinfa

Ffurflenni ar gael arlein 1 Medi 2023

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 23 Chwefror 2024

Rhieni yn cael eu hysbysu o'r canlyniad diwedd mis Mai 2024*

*Mae'r dyddiadau hyn yn berthnasol i galyniad Ceisiadau ar amser



Rhan 2 – Polisi

Mynediad

Derbyniadau Ysgol

Yn unol â Deddf Fframwaith a Safonau Addysg 1998, diweddariadau dilynol deddfwriaethol a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru, bwriad y trefniadau derbyn hyn yw i sicrhau:

- Yr ystyrir dewis ysgol cyntaf y rhieni yng nghyd-destun fframwaith deddfwriaethol sy'n ystyried darpariaeth addysg effeithiol a defnydd effeithiol adnoddau.
- Y dylai meini prawf derbyn fod yn glir, yn deg ac yn wrthrychol, er budd pob plentyn gan gynnwys plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd ag anableddau.
- Bod trefniadau derbyn lleol yn cyfrannu tuag at wella safonau.

Bod yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori ag Awdurdodau Derbyniadau cyfagos ac yn cydlynu trefniadau, gan gynnwys trefniadau er mwyn ail-gyfuno plant (lle'n rhesymol) sydd wedi eu gwahardd o ysgolion eraill.

Ei bod yn hawdd i rieni gael gafael ar wybodaeth ynghylch y trefniadau derbyn sydd o gymorth iddynt.

Nod trefniadau derbyniadau'r Awdurdod yw i fod yn unol â phob deddfwriaeth a chanllaw perthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth ar faint y dosbarthiadau babanod a chyfle cyfartal (Deddf Cydraddoldeb 2012, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993) ac yn cymryd pob sylw o ganllawiau'r Côt a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn pwysleisio'r dyletswyddau cyfreithiol i'r Cyngor a'i bartneriaid. Rhaid iddynt:-

- Waredu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- Hybu cyfle cyfartal;
- Hybu cysylltiadau da a chyd-barch.

Bydd y Cyngor hwn yn gweithio yn erbyn gwahaniaethu ac yn ceisio creu mynediad cyfartal i bawb at ein gwasanaethau, heb ystyried tarddiad ethnig, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, cred neu ddiffyg cred,

iaith, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am bobl ddibynnol neu unrhyw reswm arall na ellir dangos bod cyfiawnhad iddo.

Dewis Ysgol

Rheolir a gweinyddir y broses derbyn plant i ysgolion gan 'Awdurdod Derbyn'. Yn achos Ysgolion Cymunedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerfli yw hwn (yr ALI). Yn achos yr un Ysgol Wirfoddol Gymorthedig (Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen), yr Awdurdod Derbyn yw Corff Llywodraethu'r ysgol. O fewn y Fwrdeistref Sirol, mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu'n draddodiadol a elwir yn 'dalgyllch.' Fel canlyniad i'r ddeddfwriaeth newydd, rhaid i'r ALI roi cyfle i bob rhiant fynegi hoff ddewis ysgol yr ydynt am i'w plant ei mynychu.

Nid oes gan ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgyllch penodol yr hawl awtomatig i fynychu'r ysgol honno. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig a bydd y lleoliadau'n cael eu dyrannu'n unol â meini prawf yr ALI.

Gall rieni ddefnyddio'u hawl i fynegi dewis ar yr amserau canlynol:

- Ar dderbyniad i ysgol fabanod neu adran fabanod mewn ysgol gynradd. Mae Derbyniadau i Ysgolion Meithrin yn cael eu trin yn Adran 1.2.
- Wrth drosglwyddo o ysgol fabanod i ysgol plant iau neu adran plant iau mewn ysgol gynradd;
- Wrth drosglwyddo o ysgol plant iau neu gynradd i ysgol uwchradd;
- Ar unrhyw amser pan fo rhieni'n dymuno trosglwyddo eu plentyn o un ysgol i un arall.
- Gall rhieni hefyd fynegi dewis i'w plentyn fynychu Ysgol Wirfoddol Gymorthedig.

Rhaid i'r ALI (yn achos yr Ysgolion Cymunedol) a Llywodraethwyr Ysgol (yn achos yr Ysgolion Wirfoddol Gymorthedig a Sefydledig) gydymffurfio gydag unrhyw ddewis a fynegir, ar yr amod fod lle o fewn yr ysgol. Fodd bynnag, rhaid i'r penderfyniad i dderbyn disgyblion ystyried y canlynol:-

- y ddarpariaeth gyffredinol o addysg effeithlon a'r defnydd effeithlon o adnoddau.
- os ydyw'n ysgol gymysg neu un rhyw.
- Adran 87 o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (a diweddariadau deddfwriaethol dilynol a Chod Derbyniadau Ysgol LIC) sydd hefyd yn rhoi'r hawl i awdurdod derbyn i wrthod dewis y rhieni am gyfnod o ddwy flynedd yn dilyn ail waharddiad neu waharddiad dilynol.
- lle bydd derbyn disgybl yn groes i'r ddyletswydd o gael uchafswm o 30 mewn dosbarth babanod oherwydd y bydd y derbyniad hynny yn gofyn am fesurau

cydymffurfiaeth a fydd yn achosi rhagfarn i addysg effeithlon neu ddefnydd effeithiol o adnoddau.

Fel arfer, caiff dalgylchoedd lleol ar gyfer ysgolion sy'n darparu addysg gynradd eu grwpio gyda'i gilydd i ffurfio dalgylch cysylltiedig ar gyfer pob ysgol uwchradd a gynhelir. (gweler Rhan 2.32).

Nid yw derbyniad na phresenoldeb disgyblion yn yr ysgol plant iau/gynradd gyswllt yn rhoi derbyniad awtomatig i'r ysgol uwchradd ddewisol. Mae'n rhaid i'r rhieni i gyd lenwi'r ffurflenni derbyniad ar yr amser priodol.

Mae'r holl ysgolion o fewn yr Awdurdod Lleol yn anelu at ddarparu cyfle addysgol i'w disgyblion sydd yn addas i bob plentyn unigol. Bydd gan rai disgyblion, fodd bynnag, anghenion dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig. Mewn rhai achosion, bydd rhieni'n derbyn cymorth ac arweiniad arbenigol yn barod wrth ystyried dewis ysgol i'w plentyn.

Anogir pob rhiant, fodd bynnag, i drafod meysydd posibl pryder gyda'u Pennaeth lleol a all geisio cyngor arbenigol wedi hynny.

Ysgolion cyfrwng cymraeg

Mae'r holl drefniadau uchod yn gymwys hefyd ar gyfer yr ysgolion Cyfrwng Cymraeg o fewn yr Awdurdod. Nid yw derbyniad i Ysgolion Cynradd Cymraeg yn ddibynnol ar allu'r rhieni neu'r plant i siarad Cymraeg yn rhugl. Mae yna 11 ysgol gynradd Gymraeg o fewn yr Awdurdod ar hyn o bryd. Mae eu dalgylchoedd yn cynnwys yr holl Awdurdod ac nid ydynt yn gyfyng i ddalgylchoedd yr ysgolion cyfrwng Saesneg lleol. Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn darparu addysg gyfun cyfrwng Cymraeg i bob disgybl o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerfli, gan ddibynnu ar ddewis y rhieni.

Cyfngiadau Derbyn

Bydd pob ysgol a gynhelir yn derbyn plant i fyny at eu lefel derbyniad cyhoeddedig. Caiff plentyn fel arfer gynnig lle yn ysgol dewis cyntaf y rhiant oni bai bod yr ysgol yn llawn yn nhermau'r nifer derbyn cydnabyddedig, pan fydd hyn yn digwydd, bydd pob cais ar gyfer yr ysgol honno yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf gordanysgribo.

Yr oedrannau arferol ar gyfer derbyniad yn ysgolion CBSC yw:-

- 3/4 oed mewn dosbarth Meithrin;
- 4/5 oed mewn Ysgolion Babanod a Chynradd;
- 7/8 oed mewn Ysgolion Iau;

11/12 oed mewn Ysgolion Uwchradd

Bydd angen i chi gyflwyno cais ar-lein ar bob un o'r camau uchod.

Pan fyddwch yn cyflwyno cais i'ch plentyn fynychu'r dosbarth Derbyn mewn Ysgol Gynradd, ni fydd angen cais iddynt fynychu'r cyfnod lau. Yn yr un modd, os byddwch chi'n cyflwyno cais i'ch plentyn fynychu'r dosbarth Derbyn yn Ysgol Idris Davies 3 i 18 oed, ni fydd angen i chi gyflwyno cais ar gyfer y cyfnod lau neu Uwchradd.

Polisi'r Awdurdod yw rhoi yr hawl i le meithrin rhan amser wedi ei ariannu i holl blant 3/4 oed ym Mwrdeistref Sirol Caerfli, yn eu hysgol fabanod neu gynradd leol.

Meini Prawf Gordanysgrifo

(Mae'r rhain yn gymwys ar gyfer pob derbyniad i ysgolion sydd wedi gordanysgrifio)

1. Plant sy'n Derbyn Gofal (sef Plant o dan ofal cyhoeddus) a'r plant hynny a oedd yn Derbyn Gofal yn flaenorol.
2. Y plant hynny sy'n byw yn nalgylch yr ysgol cyn neu ar y dyddiad cau cyhoeddedig.

Noder: Bydd y plant hynny sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol yn cael eu derbyn yn gyntaf (rhaid i'r brawd neu chwaer fod o oed ysgol statudol), ac yna bydd y plant hynny sy'n byw yn nalgylch yr ysgol heb frawd neu chwaer yn cael eu derbyn.*

3. Plant gyda brodyr neu chwiorydd yn byw yn yr un cartref sy'n mynychu'r ysgol ym Medi 2022. Rhaid i'r brawd/chwaer fod o oedran ysgol statudol.
4. Ar ôl ystyried yr holl categorïau uchod, bydd y flaenoriaeth yn cael ei seilio ar agosrwydd at yr ysgol wedi'i fesur gan gronfa ddata System Gwybodaeth Ddaearyddol yr Awdurdod.

Mae pellter yn cael ei fesur o fynedfa neu gât agosaf y cartref i fynedfa neu gât agosaf yr ysgol.

Noder: Nid yw'r System Gwybodaeth Ddaearyddol yn ystyried unrhyw lwybrau byr. Os oes gan yr ALL y sefyllfa lle mae unrhyw gyfeiriadau cartref yn cyfrif yr un pellter, yna defnyddir olwyn fesur i sefydlu'r cyfeiriad agosaf.

** Mae brawd neu chwaer yn blentyn sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant sy'n rhannu un rhiant cyffredin), llys-frawd/chwaer lle y mae dau o blant yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant wedi eu mabwysiadu neu eu maethu sy'n byw yn yr un cyfeiriad.*

Dylid nodi hefyd y bydd unrhyw ddisgyblion sydd a datganiad o anghenion addysgol arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol (C.D.) sy'n nodi bod yn rhaid iddynt fynychu ysgol benodol er mwyn gallu diwallu eu hanghenion yn cael eu derbyn hefyd.

Cyfeiriadau

Wrth ystyried a yw plentyn yn byw yn nalgylch ysgol, y cyfeiriad a ystyrir yw cyfeiriad y rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol, ni waeth beth yw trefniadau domestig teulu. h.y. ni ddylid rhoi cyfeiriad perthynas arall neu warchodwr plant ac ati. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen darparu tystiolaeth sy'n ymwneud â'r plentyn/plant dan sylw, er mwyn dangos cyfeiriad cartref y plentyn/plant.

Lle mae rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant am ran o'r wythnos, yna bydd y cyfeiriad cartref yn cael ei bennu fel y cyfeiriad y telir y Budd-dal Plentyn iddo. Bydd gofyn i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad y maent yn dymuno iddo gael ei ystyried am resymau dyrannu.

Sylwer - Lle mae rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant am ran o'r wythnos, yna bydd y cyfeiriad cartref yn cael ei bennu fel y cyfeiriad y telir y Budd-dal Plant iddo. Bydd yn ofynnol i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad y maent yn dymuno iddo gael ei ystyried at ddibenion dyrannu lleoedd.

Sylwch - rhaid i'r cyfeiriad fod yn gyfeiriad y mae'r teulu'n byw ynddo - ni all fod yn eiddo y mae'r teulu'n berchen arno neu'n ei brynu yn unig.

Plant Genedigaeth Luosog (E.e. efalliad neu dripled)

Os wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifo, bydd y plentyn olaf i gael ei dderbyn yn un o genedigaeth luosog e.e. efalliaid neu dripledi yna bydd yr Awdurdod hefyd yn derbyn y brodyr/chwirydd eraill.

Plant Personél Gwasanaethau y Du

Bydd plant o bersonél gwasanaethau y DU yn cael eu trin fel bod o fewn y dalgylch os yw eu ffurflen gais yn dod gyda llythyr swyddogol o'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn datgan dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd. Bydd disgyblion o du allan i ddalgylch yr ysgol yn cael eu derbyn yn unol â dewis y rhieni os nad yw Nifer Derbyn yr ysgol, dosbarth neu uned wedi'i lenwi ac, os oes rhaid gwneud dewis, bydd y meini prawf uchod yn cael ei ddefnyddio.

Plant sydd a Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol

Mae Deddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol dderbyn i'r ysgol blentyn â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sy'n enwi'r ysgol ac o 1 Medi 2021, mae adran 48 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol. corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru i dderbyn plentyn i'r ysgol os yw'r ysgol wedi'i henwi yng nghynllun datblygu unigol y plentyn at ddiben yr adran honno, sef sicrhau bod y plentyn yn cael

ei dderbyn i'r ysgol. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol er gwaethaf y cyfyngiadau ar faint dosbarthiadau babanod a hyd yn oed pe bai derbyn y plentyn yn golygu bod yr ysgol yn mynd y tu hwnt i'w nifer derbyn. Mae'r ddyletswydd i dderbyn yn berthnasol bob amser, gan gynnwys pan fo ysgol wedi'i henwi mewn cynllun y tu allan i'r rownd derbyn arferol.

Rhestrau Aros

Yn dilyn dyraniad llefydd yn ystod y rownd derbyn arferol, bydd unrhyw ddisgybl sydd wedi cael ei wrthod i ysgol wedi'i gordanysgrifo yn aros ar y rhestr aros ar gyfer lle gwag tan 30ain Medi y flwyddyn addysgol honno a phetai lle gwag yn dod ar gael, bydd y lle'n cael ei ddyrannu yn unol â meini prawf gordanysgrifo'r awdurdod. Ar ôl 30ain Medi, bydd angen i rieni wneud cais newydd ar gyfer lleoliad yn eu hysgol o ddewis.

Addysg Gynradd

Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob plentyn dderbyn addysg amser llawn o ddechrau tymor yr ysgol ar ol ei ben-blwydd yn bump oed. Yn CBSC, fodd bynnag, bydd pob plentyn yn gallu dechrau ysgol amser llawn ar ddechrau'r flwyddyn ysgol (mis Medi) lle maent yn cyrraedd pump oed h.y. rhwng 1 Medi a 31 Awst. Mae modd i rieni ohirio plentyn yn dechrau'r ysgol tan y tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn pump oed.

Dylai pob plentyn allu fynyachu ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn dair oed, ac ystyrir plant rhwng 3/4-11 oed yn ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd. Ym Mwrdeistref Sirol Caerfli, darperir addysg gynradd naill ai mewn ysgolion babanod ac iau ar wahân, neu ysgol gynradd gydag un amrediad oedran cyfan o 3/4-11 oed.

Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod

Mae dewis ysgol i blentyn ifanc am y tro cyntaf yn hynod o bwysig, i'r rhieni ac i'r plentyn hefyd. I gydymffurfio gyda deddfwriaeth Maint Dosbarth Babanod, ni fydd dosbarth babanod ysgol a gynhelir yn cynnwys mwy na 30 disgybl lle cynhelir y wers arferol gan athro/athrawes cymwys (neu lle cynhelir y sesiwn gan fwy nag un athro/athrawes cymwys, dim mwy na 30 disgybl fesul athro/athrawes).

Derbyniad i Leoliad Blynnyddoedd Cynnar Mewn Ysgol Feithrin

Efallai bod gan blant a anwyd rhwng 1 Medi a 31 Mawrth hawl i leoliad Blynnyddoedd Cynnar (tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed) yn eu hysgol Gynradd / Babanod leol yn dibynnu ar argaeledd.

Lle mae ysgol wedi cyrraedd eu Nifer Derbyn yn eu meithrinfa bresennol, a lle mae'r nifer y plant o'r dalgylch yn uwch na 70%, dim ond plant sy'n byw o fewn ardal dalgylch yr ysgolion bydd yn cael eu derbyn i leoliad Blynnyddoedd Cynnar.

Nodwch nad yw derbyn lle mewn lleoliad Blynnyddoedd Cynnar naill ai yn nhymor y Gwanwyn neu'r Haf yn sicrhau addysg barhaol o fewn dosbarth meithrin yr ysgol. Bydd rhaid i chi wneud cais am dderbyniad i ddosbarth meithrin yr ysgol ar yr amser priodol.

Derbyniad i'r Ysgol Feithrin

Mae'r nifer o lefydd sydd ar gael mewn ysgol feithrin yn cael ei osod gan yr ALL a gwneir y penderfyniad o dderbyn eich plentyn yn unol â chanllawiau'r ALL, sy'n dilyn.

Ni fydd gan ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i ddosbarth meithrin, hawl "awtomatig" i addysg barhaol o fewn yr ysgol honno. Rhaid gwneud cais ffurfol ar gyfer derbyniad i'r flwyddyn derbyn ar yr amser priodol.

Trosglwyddo i Ysgolion Babanod neu adrannau Babanod o fewn Ysgolion Cynradd

Mae'n bosibl i blant sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn ysgol gael eu derbyn i ysgol/adran fabanod, ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi. Ni fydd gan ddisgyblion a gafodd eu derbyn i ysgol fabanod ar wahân, hawl 'awtomatig' i addysg barhaol yn yr Ysgol Iau y mae'n ei bwydo, sydd yn gwasanaethu'r un dalgylch. Tra gwneir pob ymdrech i gynnwys y fath ddisgyblion, rhaid gwneud cais ffurfiol ar gyfer trosglwyddo i'r Ysgol Plant Iau ar yr amser priodol.

Trosglwyddo i Ysgolion Iau

Mae plant yn mynd i Ysgol Iau, neu'n trosglwyddo iddi, ar ddiwrnod cyntaf tymor yr Hydref yn dilyn eu pen-blwydd yn saith oed. Mewn Ysgolion Cynradd mae'r adrannau babanod a phlant iau yn adrannau o'r un ysgol ac mae plant yn symud drwy'r ysgol o'r adran fabanod i'r adran iau heb orfod trosglwyddo i unman arall.

Tra gwneir pob ymdrech i gynnwys y fath ddisgyblion, rhaid gwneud cais ffurfiol ar gyfer trosglwyddo i'r Ysgol Plant Iau ar yr amser priodol.

Newid Ysgolion: Addysg Gynradd

Mae newid ysgolion yn ystod addysg gynradd yn gam sylweddol i'ch plentyn ei gymryd. Yn achos symud cartref y teulu, mae'n bosibl fod y fath benderfyniad yn rheidrwydd a bydd angen i chi gysylltu â'ch ysgol leol neu'r Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes am gymorth. Os sut bynnag, yr hoffech i'ch plentyn drosglwyddo o

un ysgol i un arall, cysylltwch â'ch Pennaeth presennol yn gyntaf. Os ydych dal yn dymuno parhau gyda'r trefniadau trosglwyddo gallech wneud cais arlein yn

www.caerphilly.gov.uk

Os oes lle gwag addas, bydd eich plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol. Dylai rhieni nodi, fodd bynnag, y gall dosbarthiadau gynnwys fwy nag un grŵp oedran a bydd gan y Pennaeth y dasg o roi eich plentyn yn y dosbarth mwyaf priodol.

Derbyniad Plant i Ysgolion Uwchradd

Mae plant fel arfer yn trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yn dilyn eu hunfed pen-blwydd ar ddeg. Os yw dyddiad geni eich plentyn rhwng y 1 Medi 2012 a 31 Awst 2013 bydd ef/hi yn trosglwyddo'n awtomatig i'ch ysgol uwchradd leol ym mis Medi 2024. Bydd prifathrawon ysgolion cynradd yn gallu hysbysu rhieni o'r ysgol uwchradd arferol y dylai eu plentyn fynychu. Dylid nodi bod y cyfeiriad cartref yn dynodi pa ysgol yw'r ysgol 'dalgyllch' ac nid yr ysgol gynradd a fynychwyd. Tra y gwneir pob ymdrech i ddarparu ar gyfer eich plentyn, rhaid gwneud cais er mwyn trosglwyddo i ysgolion uwchradd ar yr amser priodol.

Newid Ysgol Uwchradd

Mae newid ysgolion uwchradd yn gam sylweddol i'ch plentyn ei gymryd. Yn achos symud cartref y teulu, mae'n bosibl fod y fath benderfyniad yn rheidwydd a bydd angen i chi gysylltu â'ch ysgol leol neu'r Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes am gymorth. Os, fodd bynnag, yr hoffech drosglwyddo'ch plentyn o un ysgol uwchradd i un arall, cysylltwch â'ch Pennaeth presennol yn gyntaf. Os ydych dal yn dymuno i barhau gyda'r trefniadau trosglwyddo, dylech gysylltu â'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol am gyngor ar wneud eich cais, a fydd wedyn ei angen yn ysgrifenedig. Wrth ystyried eich cais ar gyfer trosglwyddo, bydd yr Awdurdod Addysg Leol yn adolygu nifer y disgyblion yn y grŵp oedran priodol i'ch plentyn. Os yw'r plentyn ym mlynnyddoedd 10 neu 11, gall yr amrediad o opsiynau pwnc dewisol hefyd fod yn ffactor. Os nad yw'r flwyddyn benodol honno wedi cyrraedd cyfyngiad derbyn cyhoeddedig yr ysgol, yna bydd eich plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol. Dylai rhieni nodi, fodd bynnag, y gall dewisiadau opsiwn cwricwlwm amrywio o ysgol i ysgol.

Gwneud Cais am Le

Pan rydych yn gwneud cais am le mewn ysgol benodol, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais sydd ar gael ar-lein yn

www.caerphilly.gov.uk

Rhaid i chi wneud cais erbyn y dyddiadau cau a ddangosir isod ar gyfer derbyniad ym mis Medi 2023.

Am unrhyw gymorth gyda llenwi'r ffurflen, a wnewch chi gysylltu â Thîm Derbyniadau Ysgol ar 01443 864870.

Bydd yr All yn eich hysbysu ynglŷn ag os ydyw'n bosibl neu beidio i'ch plentyn fynychu'ch ysgol ddewisol. Mae pob ysgol yn darparu pros-bectws sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol gan gynnwys nodau a chredoau addysgol yr ysgol, trefniant yr ysgol a chyfleoedd cwricwlaidd, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r prospectws ysgol hon ar gael oddi wrth y Pennaeth.

Ceisiadau Hwyr

Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn yn cael eu gwrthod os yw'r ysgol wedi ei gordanysgrifio oni bai bod y teulu wedi symud i mewn i'r dalgylch a bod y cais yn cael ei dderbyn cyn i'r cynnig o leoedd gael ei wneud. Os yw'r cais yn cael ei dderbyn ar ôl i'r lleoedd gael eu cynnig a bod tystiolaeth ddogfennol yn cael ei darparu i ddangos bod y teulu wedi symud i mewn i ddalgylch yr ysgol, bydd y disgybl yn cael blaenoriaeth uwch ar y rhestr aros. Yna bydd lleoedd yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio meini prawf gordanysgrifio'r awdurdod.

Sylwer - Os byddwch yn gwneud cais ar ôl y dyddiad cau, gallai eich plentyn golli allan ar le yn eich dewis ysgol. Bydd yr holl leoedd sydd ar gael yn cael eu dyrannu i ymgeiswyr ar amser yn gyntaf.

Tynnu cynigion o leoedd yn ôl

Bydd y cynnig o le mewn ysgol yn cael ei dynnu'n ôl ar sail derbyn cais twyllodrus neu gamarweiniol yn fwriadol (e.e. honni ar gam bod y plentyn yn byw o fewn dalgylch ysgol).

Anghydfodau Rhieni

Ni fydd yr Awdurdod Derbyn yn ymwneud ag unrhyw anghydfod rhwng rhieni. Lle mae anghytundeb rhwng y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant, bydd hwn yn fater i'w ddatrys drwy'r Llys Teulu.

Derbyniadau Chweched Dosbarth

Ysgolion unigol sy'n pennu pa ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i'r Chweched Dosbarth mewn ysgolion cymunedol. Felly, dylid gwneud ceisiadau i'r ysgol yn uniongyrchol.

Beth sy'n digwydd os gwrthodir lle i'ch plentyn?

Yn y mwyafrif helaeth o achosion cynigir llefydd i blant yn ysgol ddewis cyntaf y rhieni. Os, fodd bynnag, nad yw eich plentyn yn gallu cael ei dderbyn, rhaid i chi benderfynu os ydych yn fodlon derbyn lle a gynigir mewn ysgol wahanol, neu os ydych yn dymuno parhau gyda'ch cais cyntaf. Os ydych yn dewis y cwrs diwethaf, gallwch apelio at Bwyllgor Apelio Annibynnol. Bydd y Pwyllgor Apelio Annibynnol hwn yn barnu a yw'r ysgol yn llawn ac os felly, a yw cais y rhiant mor gryf fel y dylid parhau i gynnig lle i'r plentyn.

Dylid nodi nad oes gan ddisgyblion Meithrin yr hawl i apelio.

Cofrestru eich Apêl

Gallwch wneud apêl ffurfiol yn erbyn penderfyniad yr ALL, ond rhaid derbyn hwn o fewn 28 diwrnod calendr o'ch hysbysu ynglŷn â'r penderfyniad i beidio â derbyn eich plentyn i'ch ysgol ddewisol. Dylech anfon yr apêl ymlaen yn ysgrifenedig i'r Gyfadrdd Addysg a Dysgu Gydol Oes. Bydd yr ALL yn cyfeirio'r apêl at Isadrdd Gyfreithiol y Cyngor er mwyn trefnu i'r apêl fynd at y Pwyllgor Apelio Annibynnol a fydd yn gosod amser a lle ar gyfer y gwrandawriad. Bydd y Panel yn rhoi cyfle i'r rhieni ymddangos i gyflwyno eu cais (boed ar lafar neu'n ysgrifenedig). Gall rhieni ceisio mynediad i ysgol arall tra maent yn dilyn apêl.

Fodd bynnag, cynghorir rhieni : -

- Bod hawl ganddynt ddewis peidio â mynychu'r cyfarfod apêl ac, yn lle hynny, caniatáu i'r apêl gael ei hystyried ar ffurf datganiad ysgrifenedig;
- Y caiff yr apêl ei benderfynu ar sail yr wybodaeth sydd ar gael os, ar ôl methu â rhoi esboniad boddhaol, nid ydynt yn ymddangos yn yr apêl;
- Y byddant yn cael o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig (o'r dyddiad postio) yn eu hysbysu o ddyddiad cyfarfod y Panel Apelio;
- Bod croeso iddynt ddod â ffrind, neu gael eu cynrychioli gan gyfreithiwr/wraig, ond y dylid, yn yr achos diwethaf, hysbysu'r Gyfadrdd Addysg a Dysgu Gydol Oes o leiaf saith diwrnod cyn y gwrandawriad.
- Nodwch fod Pwyllgorau Apelio ar wahân yn gwrandao ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau Llywodraethwyr Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig neu Sefydledig. Rhaid cael cyngor felly am apêl o'r fath oddi wrth yr Ysgol berthnasol.
- Noder bydd cyfyngiad ar bwerau'r panel apelio i gefnogi apeliadau yn erbyn gwrthod rhoi lle i blentyn mewn ysgol lle mae deddfwriaeth maint dosbarthiadau babanod yn berthnasol.
- Ni fydd yr Awdurdod yn ystyried ail gais am dderbyniad oni bai bod newid sylweddol mewn amgylchiadau (a byddai angen tystiolaeth o hyn).

Derbyniadau i Ysgol Gynradd Gatholig San Helen

Y Corff Llywodraethol yn unig sy'n gyfrifol am dderbyniadau i San Helen. Bydd y Corff Llywodraethol yn derbyn disgyblion hyd at Nifer Derbyn yr Ysgol sef 30.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol ar 029 20 852532.

Gwahaniaethu yn erbyn Anabledd

Mae gan y Cyngor Strategaeth Hygyrchedd ar waith sy'n rhoi manylion am sut y bydd y Cyngor yn cwrdd â'l ddyletswyddau anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r ddeddfwriaeth gwahaniaethu yn erbyn anabledd blaenorol.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys pob agwedd o hygyrchedd gan gynnwys derbyniad i adeiladau, y cwricwlwm a gwybodaeth ysgrifenedig. Mae'r strategaeth yn cynnwys cynlluniau'r Cyngor i wella mynediad corfforol i adeiladau ysgol ar draws y fwrdeistref i leihau'r rhwystrau i ddisgyblion anabl sydd am dderbyn addysg. Mewn nifer o achosion oherwydd topograffeg safle ysgol, efallai nad yw'n cael ei ystyried yn hygyrch ar gyfer plentyn ag anabledd corfforol. Mewn achosion o'r fath, bydd rhieni/gwarcheidwaid yn cael eu darparu gyda manylion o'r ysgol hygyrch agosaf a fydd yn gallu cwrdd ag anghenion y plentyn.

Mae ffurflenni derbyn yn cael eu sgrinio gan Addysg er mwyn amlygu unrhyw blant sydd â chyflwr meddygol/anabledd corfforol. Cysylltir â rhieni ar y cyfle cyntaf i drafod anghenion y plentyn a bydd lleoliad ysgol addas yn cael ei ystyried. Mae'r Ysgol a Swyddogion y Cyngor yn gweithio'n agos gyda rhieni i sicrhau bod asesiadau manwl mewn lle i gefnogi cynhwysiad disgyblion, lle bo hynny'n bosibl, o fewn eu dewis ysgol.

Defnydd o Leoliadau Addysg

Mae'r Awdurdod Lleol yn adolygu'n barhaol y defnydd o leoliadau addysg ym mhob ysgol Fabanod, lau a Chynradd ac wedyn yn diweddarau'r Rhif Capasiti a Derbyn i adlewyrchu'r adolygiad hwn. Bydd dyraniad lleoedd yn cael ei wneud gan ddefnyddio Trefniadau Derbyn a gyhoeddir gan yr Awdurdod.

Fforwm Derbyn

Yn unol â Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003 mae'r Awdurdod wedi sefydlu Fforwm Derbyn a fydd yn ein galluogi i ddod ag awdurdodau derbyn ac eraill ynghyd sydd yn ymwneud â'r broses derbyn o fewn yr ardal.

Polisi Iaith Gymraeg

Yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032, polisi'r ALI yw y dylai pob plentyn gael y cyfle i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol. Ar hyn o bryd gwneir darpariaeth ar gyfer hyn yn y ffyrdd canlynol, yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr ALI.

Mae addysg ar gael mewn Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg i bob disgybl y mae eu rhieni yn dewis y cyfrwng addysg hwnnw. Er mai Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu, mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 hefyd yn astudio rhaglenni astudio Saesneg y Cwricwlwm Cenedlaethol i'r lefel briodol.

Bydd disgyblion yn gallu parhau â'u haddysg mewn Ysgol Gyfun Cyfrwng Cymraeg.

Mae llawer o ffyrdd i ddysgu Cymraeg ym mwrdeistref Caerffili. Mae ymchwil yn awgrymu mai trochi plant, pobl ifanc neu oedolion yn yr iaith yw'r ffordd gyflymaf o ddysgu iaith newydd. Mae darpariaeth Gymraeg yn galluogi plant a phobl ifanc i brofi'r Gymraeg a chael eu trochi ynddi o ddydd i ddydd gan alluogi caffael yr iaith yn gyflymach.

Mae model trochi hwyrddyfodiaid Caerffili yn cael ei ddatblygu a'i nod yw cefnogi plant a phobl ifanc sy'n newydd i'r iaith i gael eu trochi yn y Gymraeg wedi'u haddysgu gan staff arbenigol i gefnogi datblygiad sylfaenol eu sgiliau Cymraeg yn gyflym a pharhau i ddatblygu ymhellach yn eu hysgol eu hunain.

Dysgu Cymraeg fel ail iaith mewn Ysgolion Cyfrwng Saesneg

Yn y cyfnod sylfaen, dysgir Cymraeg i bob disgybl. Rhoddir y pwyslais ar ddefnyddio'r iaith gyda phwrrpas ac mewn sefyllfaoedd ystyrlon. Yn ychwanegol, anogir defnydd achlysurol o'r iaith yn ystod y diwrnod ysgol.

Yng nghyfnod allweddol 2, datblygir yr iaith lafar ymhellach, a rhoddir mwy o sylw i sgiliau dysgu, darllen ac ysgrifennu.

Yng nghyfnod allweddol 3 a 4 dysgir Cymraeg i'r disgyblion i gyd. Darperir cyfleoedd ym mhob ysgol i ddisgyblion barhau â'u hastudiaethau ar gyfer arholiadau 16+ a lefel "A".

Adran 3 – Rhestr o Ysgolion

Mae pob ysgol yn ysgol ddyddiol neu gydaddysgol, oni nodir fel arall.

Mae'r ALI yn aml yn adolygu'r Cynllun o Leoliadau Ysgolion a bydd hyn yn achosi newid i Nifer y Derbyniadau sydd wedi'i gyhoeddi. Wedi hynny, gall Nifer y Derbyniadau a nodir o dan yr enw ysgol berthnasol gael ei ddiwygio yn dilyn cyhoeddi'r llyfryn hwn.

Meithrinfeydd ac Ysgolion Cynradd Cyfrwng Saesneg

1. Ysgol Gynradd Aberbargod

Cyfeiriad: Heol Ysgol Newydd, Aberbargod, Bargod, CF81 9DD

Rhif Ffôn: 01443 875512

Pennaeth: Ms. S. Everson

Ebost: aberbargodprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 30

2. Ysgol Gynradd Abercarn

Cyfeiriad: Capel Anwes, Abercarn, NP11 5LH

Rhif Ffôn: 01495 244566

Pennaeth: Mr. G. Roden

Ebost: abercarnprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 33

3. Ysgol Fabanod Bedwas

Cyfeiriad: St. Mary's Street, Bedwas, Caerffili, CF83 8EE

Rhif Ffôn: 029 20 852512

Pennaeth: Mrs V. Jenkins-Delf

Ebost: bedwasinfants@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 7

Nifer y Derbyniadau: 40

4. Ysgol Iau Bedwas

Cyfeiriad: Church Street, Bedwas, Caerffili, CF83 8EB

Rhif Ffôn: 029 20 852511

Pennaeth: Mr. R. Cook

Ebost: bedwasjunior@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 7 to 11

Nifer y Derbyniadau: 43

5. Ysgol Gynradd Coed Duon

Cyfeiriad: Ffordd Apollo, Coed Duon, NP12 1WA

Rhif Ffôn: 01495 224111

Pennaeth: Mrs. K. Davies

Ebost: Coed Duonprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 60

6. Ysgol Gynradd Bryn Awel

Cyfeiriad: Eglwys Fan, Rhymni, NP22 5QA

Rhif Ffôn: 01685 840230

Pennaeth: Mrs. C. Davies

Ebost: brynawelprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 24

7. Ysgol Gynradd Bryn

Cyfeiriad: Bryn y Goedwig, Y Bryn, Pontllanfraith, Coed Duon, NP12 2PL

Rhif Ffôn: 01495 225690

Pennaeth: Mrs. J. Khan

Ebost: brynprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 29



8. Ysgol Gynradd Cefn Fforest

Cyfeiriad: (Babanod) Tynycoed Crescent, Cefn Fforest, Coed Duon, NP12 3LL

Cyfeiriad: (lau) Cefn Fforest Avenue, Cefn Fforest, Coed Duon, NP12 3JX

Rhif Ffôn: 01443 830449

Pennaeth: Mrs. J. Farmer

Ebost: cefnfforestprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 36

9. Ysgol Gynradd Coed Y Brain

Cyfeiriad: School Street, Llanbradach, Caerffili, CF83 3LD

Rhif Ffôn: 029 20 852513

Pennaeth: Ms. C. Wilson

Ebost: coedybrainprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 24 (Infants) 33 (Juniors)

10. Ysgol Gynradd Crymlyn Lefel Uwch

Cyfeiriad: Commercial Road, Crumlin, NP11 4PX

Rhif Ffôn: 01495 244606

Pennaeth: Mr. C. George

Ebost: crumlinhighlevelprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 18

11. Ysgol Fabanod Cwmaber

Cyfeiriad: Bryngelli Terrace, Abertridwr, Caerffili, CF83 4FF

Rhif Ffôn: 029 20 832231

Pennaeth: Mrs. B. Davies

Ebost: cwmaberinfant@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 7

Nifer y Derbyniadau: 30



12. Ysgol Iau Cwmaber

Cyfeiriad: Brynhafod Road, Abertridwr, Caerffili, CF83 4BH

Rhif Ffôn: 029 20 832231

Pennaeth: Mrs. B. Davies

Ebost: cwmaberjunior@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 7 to 11

Nifer y Derbyniadau: 30

13. Ysgol Gynradd Cwmcarn

Cyfeiriad: Newport Road, Cwmcarn, Crosskeys, Np11 7LZ

Rhif Ffôn: 01495 270494

Pennaeth: Mrs H. Robbins

Ebost: cwmcarnprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 33

14. Ysgol Gynradd Cwmfelinfach

Cyfeiriad: King Street, Cwmfelinfach, Ynysddu, NP11 7HL

Rhif Ffôn: 01495 200225

Pennaeth: Mr. D. Witchell

Ebost: cwmfelinfachprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 29

15. Ysgol Babanod Cwm Glas

Cyfeiriad: Glas, Llanbradach, Caerffili, CF83 3PD

Rhif Ffôn: 029 20 852515

Pennaeth: Mrs. H. Owen

Ebost: cwmglasinfants@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 7

Nifer y Derbyniadau: 18

16. Ysgol Gynradd Cwm Ifor

Cyfeiriad: Heol Aneurin, Penyrheol, Caerffili CF83 2PG

Rhif Ffôn: 029 20852509

Pennaeth: Mr. G. Rees

Ebost: cwmiforprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 30



17. Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin

Cyfeiriad: Cae Meillion, Caerffili CF83 1SN

Rhif Ffôn: 029 20807007

Pennaeth: Mrs. T. Lloyd

Ebost: cwrtrawlinprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 46

18. Ysgol Gynradd Deri

Cyfeiriad: Glynmarch Street, Deri, Bargod CF81 9HZ

Rhif Ffôn: 01443 875516

Pennaeth: Ms. S. Martin

Ebost: deriprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 11

19. Ysgol Gynradd Derwendeg

Cyfeiriad: Hengoed Road, Cefn Hengoed, Hengoed, CF82 7HP

Rhif Ffôn: 01443 813138

Pennaeth: Mrs. L. Wangiel

Ebost: derwendegprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 29

20. Ysgol Gynradd Fleur-de-Lys

Cyfeiriad: School Street, Fleur-de-Lys, Coed Duon NP12 3UX

Rhif Ffôn: 01443 830539

Pennaeth: Mrs. S. Witchell

Ebost: fleurdelysprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 16

21. Ysgol Gynradd Fochriw

Cyfeiriad: Pontlottyn Road, Fochriw, Bargod CF81 9LL

Rhif Ffôn: 01685 841236

Pennaeth: Mrs. S. Pascoe

Ebost: fochriwprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 17



22.Ysgol Gynradd Gilfach Fargoed

Cyfeiriad: Vere Street, Gilfach, Bargod CF81 8LB
Rhif Ffôn: 01443 875510
Pennaeth: Mrs. C. Rees
Ebost: gilfachfargoedprimary@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: 23

23.Ysgol Gynradd Glyngaer

Cyfeiriad: Oxford Street, Gelligaer, Hengoed CF82 8FF
Rhif Ffôn: 01443 875518
Pennaeth: Mrs. B. Pearce
Ebost: glyngaerprimary@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: 36

24.Ysgol Gynradd Graig y Rhacca

Cyfeiriad: Addison Way, Machen, Caerffili CF83 8WW
Rhif Ffôn: 029 20852516
Pennaeth: Miss. N. Thain
Ebost: graigyrrhaccapprimary@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: 30

25.Ysgol Gynradd Greenhill

Cyfeiriad: Penywrlod, Gelligaer, Hengoed, CF82 8EU
Rhif Ffôn: 01443 875521
Pennaeth: Miss. L. Jones
Ebost: greenhillprimary@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: 24

26.Ysgol Fabanod Hendre

Cyfeiriad: St. Cenydd Road, Trecenydd, Caerffili CF3 2RP
Rhif Ffôn: 029 20852519
Pennaeth: Mr. J. Farmer
Ebost: hendreinfaunts@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 7
Nifer y Derbyniadau: 38



27.Ysgol Iau Hendre

Cyfeiriad: St. Cenydd Road, Trecenydd, Caerffili CF83 2RP

Rhif Ffôn: 029 20852518

Pennaeth: Mr. J. farmer

Ebost: hendrejunior@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 7 to 11

Nifer y Derbyniadau: 52

28.Ysgol Gynradd Parc Hendredenny

Cyfeiriad: Groeswen Drive, Hendredenny, Caerffili CF83 2BL

Rhif Ffôn: 029 20852520

Pennaeth: Mrs. C. Walsh

Ebost: hendredennyparkprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 29

29.Ysgol Gynradd Hengoed

Cyfeiriad: Chapel Terrace, Hengoed CF82 8JU

Rhif Ffôn: 01443 812909

Pennaeth: Mr. J. Lloyd

Ebost: hengoedprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 25

30.Ysgol Gynradd Libanus

Cyfeiriad: Libanus Road, Coed Duon NP12 1EH

Rhif Ffôn: 01495 225736

Pennaeth: Mrs. N. Williams

Ebost: libanusprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 44

31.Ysgol Iau Llancaeath

Cyfeiriad: Commercial Street, Nelson CF46 6HL

Rhif Ffôn: 01443 450211

Pennaeth: Mrs. L. Greenhalgh

Ebost: llancaeachjunior@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 7 to 11

Nifer y Derbyniadau: 46



32.Ysgol Fabanod Llanfabon

Cyfeiriad: Bryncelyn Avenue, Nelson CF46 6HL

Rhif Ffôn: 01443 450275

Pennaeth: Mrs. S. Snelgrove

Ebost: llanfaboninfants@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 7

Nifer y Derbyniadau: 40

33.Ysgol Gynradd Machen

Cyfeiriad: Commercial Street, Machen Caerffili CF83 8NA

Rhif Ffôn: 01633 440403

Pennaeth: Mr. J. Preston

Ebost: machenprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 23

34.Ysgol Gynradd Maesycwmmmer

Cyfeiriad: Tabor Road, Maesycwmmmer, Hengoed CF82 7PU

Rhif Ffôn: 01443 812148

Pennaeth: Mr. J. Harris

Ebost: maesycwmmmerprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed:

Nifer y Derbyniadau: 22

35.Ysgol Gynradd Markham

Cyfeiriad: Pantycefn Road, Markham, Coed Duon NP12 0QD

Rhif Ffôn: 01495 224811

Pennaeth: Mrs. L. Pritchard

Ebost: markhamprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 27

36.Ysgol Gynradd Nant y Parc

Cyfeiriad: Universal Site, Senghenydd, Caerffili CF83 4GY

Rhif Ffôn: 029 20832116

Pennaeth: Mrs. N. Davies

Ebost: nantyparcprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 29



37.Ysgol Gynradd Pantside

Cyfeiriad: Old pant Road, Newbridge NP11 5DE

Rhif Ffôn: 01495 243286

Pennaeth: Mrs. K. Bennett

Ebost: pantsideprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 29

38.Ysgol Gynradd Park

Cyfeiriad: Park Crescent, Bargod CF81 8PN

Rhif Ffôn: 01443 830429

Pennaeth: Mrs. C. Rees

Ebost: parkprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 20

39.Ysgol Gynradd Pengam

Cyfeiriad: Commercial Street, Pengam, Coed Duon NP12 3ST

Rhif Ffôn: 01443 830429

Pennaeth: Mrs. S. Witchell

Ebost: pengamprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 28

40.Ysgol Gynradd Penllwyn

Cyfeiriad: Fleur de Lys Avenue, Pontllanfraith, Coed Duon NP12 2NT

Rhif Ffôn: 01495 223505

Pennaeth: Mrs. E. Jones

Ebost: penllwynprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 19

41.Ysgol Gynradd Pentwynmawr

Cyfeiriad: Tonypistyll Road, Newbridge NP11 4HJ

Rhif Ffôn: 01495 243400

Pennaeth: Mr. J. Harris

Ebost: pentwynmawrprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 17



42. Ysgol Gynradd Phillipstown

Cyfeiriad: Cefn Rhychdir Road, Phillipstown, New Tredegar NP24 6XE

Rhif Ffôn: 01443 875522

Pennaeth: Mrs. L. Jones

Ebost: phillipstownprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 20

43. Ysgol Gynradd Plasyfelin

Cyfeiriad: Lewis Drive, Churchill Park, Caerffili

Rhif Ffôn: 029 20852523

Pennaeth: Mr. M. Jones

Ebost: plasyfelinprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 56

44. Ysgol Gynrad Pontllanfraith

Cyfeiriad: Penmaen Road, Pontllanfraith, Coed Duon NP12 2DN

Rhif Ffôn: 01495 222128

Pennaeth: Mrs. A. Taylor

Ebost: pontllanfraithprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 32

45. Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd

Cyfeiriad: Maes-y-Garn Road, Oakdale, Coed Duon NP12 0NE

Rhif Ffôn: 01495 222829

Pennaeth: Mr. C. George

Ebost: rhiwsyrdafyddprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 85

46. Ysgol Gynradd Rhydri

Cyfeiriad: Rudry, Caerffili CF83 3DF

Rhif Ffôn: 029 20 852525

Pennaeth: Mr. R. Cook

Ebost: rhydriprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 13



47. Ysgol Gynradd Rhisga

Cyfeiriad: Dan y Graig Road, Risca NP11 6DB
Rhif Ffôn: 01633 612429
Pennaeth: Mrs. J. Arthur
Ebost: riscaprimary@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: Infants - 87, Junior - 240

48. Ysgol Santes Gwladys Bargod

Cyfeiriad: Church Place, Bargod CF81 8RP
Rhif Ffôn: 01443 875523
Pennaeth: Mrs. K. Evans
Ebost: stgwladysBargodschoold@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: 56

49. Ysgol Gynradd Sant Iago

Cyfeiriad: Pen-y-Cae, Caerffili CF3 3GT
Rhif Ffôn: 029 20852522
Pennaeth: Ms. C. Price
Ebost: stjamesprimary@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: 47

50. Ysgol Y Twyn

Cyfeiriad: East View, Caerffili CF83 1UT
Rhif Ffôn: 029 852527
Pennaeth: Mr. L. Thomas
Ebost: thetwynschool@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: 56

51. Ysgol Gynradd Tiryberth

Cyfeiriad: New Road, Tiryberth, Hengoed CF82 8AU
Rhif Ffôn: 01443 875526
Pennaeth: Mrs. B. Pearce
Ebost: tiryberthprimary@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: 19



52. Ysgol Gynradd Trinant

Cyfeiriad: Conway Road, Pentwyn, Crumlin NP11 3JN

Rhif Ffôn: 01495 214357

Pennaeth: Mrs. S. James

Ebost: trinantprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 27

53. Ysgol Fabanod Ty Isaf

Cyfeiriad: Mill Street, Risca

Rhif Ffôn: 01633 612400

Pennaeth: Ms. R. Luxton

Ebost: tyisafinfants@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 7

Nifer y Derbyniadau: 40

54. Ysgol Gynradd Tynewydd

Cyfeiriad: Greenfield, Newbridge NP11 4QZ

Rhif Ffôn: 01495 243312

Pennaeth: Mr. M. McCabe

Ebost: tynewyddprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 36

55. Ysgol Gynradd Ty Sign

Cyfeiriad: Elm Drive, Risca, Newbridge NP11 6HJ

Rhif Ffôn: 01633 612813

Pennaeth: Mrs. R. Sims

Ebost: tysignprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 68

56. Ysgol Gynradd Tyn-y-Wern

Cyfeiriad: Heol yr Ysgol, Trethomas, Caerffili Cf83 8FL

Rhif Ffôn: 029 20852528

Pennaeth: Mrs. S. Goodliffe

Ebost: tynywernprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 31



57. Ysgol Gynradd Upper Rhymni

Cyfeiriad: Oakland Terrace, Rhymni NP22 5EP
Rhif Ffôn: 01685 840293
Pennaeth: Miss. S. King
Ebost: upperRhymniprimary@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: 22

58. Ysgol Gynradd Waunfawr

Cyfeiriad: Waunfawr Road, Crosskeys NP11 7PG
Rhif Ffôn: 01495 270269
Pennaeth: Mrs. M. Armishaw
Ebost: waunfawrprimary@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: 25

59. Ysgol Gynradd Rhosyn Gwyn

Cyfeiriad: School Street, Elliots Town, New Tredegar NP24 6DW
Rhif Ffôn: 01443 828060
Pennaeth: Mrs. K. Thompson
Ebost: whiteroseprimary@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: 33

60. Ysgol Gynradd Ynysddu

Cyfeiriad: High Street, Ynysddu NP11 7JH
Rhif Ffôn: 01495 200223
Pennaeth: Mr. D. Witchell
Ebost: ynysdduprimary@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: 16

61. Ysgol Gynradd Ystrad Mynach

Cyfeiriad: Lewis Street, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7AQ
Rhif Ffôn: 01443 812707
Pennaeth: Mr. J. Lloyd
Ebost: ystradmynachprimary@sch.caerphilly.gov.uk
Ystoed Oed: 3 to 11
Nifer y Derbyniadau: 54



Meithrinfeydd ac Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg

62.Ysgol Bro Sannan

Cyfeiriad: Ty Fry Road, AberBargod, Bargod Cf81 9FN

Rhif Ffôn: 01443 828000

Pennaeth: Mr. J. Hallett

Ebost: ysgolbrosannan@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 25

63.Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili

Cyfeiriad: Pontygwindy Road, Caerffili CF83 3HG

Rhif Ffôn: 029 20852531

Pennaeth: Mr. L. Griffiths

Ebost: ysgolgymraegcaerffili@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 59

64.Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Gwyddon

Cyfeiriad: Gwyddon Road, Abercarn NP11 5GX

Rhif Ffôn: 01495 244267

Pennaeth: Mrs. A. Tucknutt

Ebost: ysgolgymraegcwmngwyddon@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 35

65.Ysgol Gymraeg Trelyn

Cyfeiriad: Commercial Street, Pengam, Coed Duon NP12 3ST

Rhif Ffôn: 01443 821600

Pennaeth: Mrs. E. Owen

Ebost: ysgolgymraegtrelyn@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 27

66.Ysgol Ifor Bach

Cyfeiriad: Windsor Way, Abertridwr, Caerffili CF83 4AB

Rhif Ffôn: 029 20830375

Pennaeth: Mrs. S. Edmunds

Ebost: ysgoliforbach@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 38



67.Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed

Cyfeiriad: Commercial Street, Gilfach, Bargod CF81 8JG

Rhif Ffôn: 01443 875528

Pennaeth: Mr. J. Hallett

Ebost: ysgolgymraeggilfachfargoed@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 22

68.Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell

Cyfeiriad: Crescent Road, Caerffili CF83 1WH

Rhif Ffôn: 029 20864790

Pennaeth: Mr. G. Hughes

Ebost: yggycastell@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 70

69.Ysgol Gymraeg Bro Allta

Cyfeiriad: Central Street, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7XQ

Rhif Ffôn: 01443 814883

Pennaeth: Mrs. M. Jones

Ebost: ysgolgymraegbroallta@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 44

70.Ysgol Y Lawnt

Cyfeiriad: Surgery Hill, Rhymni NP22 5LS

Rhif Ffôn: 01685 840285

Pennaeth: Mrs. S. Davies

Ebost: ysgolylawnt@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 29

71.Ysgol Penalltau

Cyfeiriad: Cwm Calon Road, Penallta, Ystrad Mynach Cf82 6AP

Rhif Ffôn: 01443 862974

Pennaeth: Mrs A. Woods

Ebost: ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 34



72. Ysgol Gymraeg Cwm Derwen

Cyfeiriad: Beech Grove, Oakdale NP12 0JL

Rhif Ffôn: 01495 226062

Pennaeth: Mrs. K. Matthews

Ebost: ysgolgymraegcwnderwen@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 30

Ysgol Gynradd Wirfoddol Gymorthedig

73. Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen

Cyfeiriad: Lansbury Park, Caerffili CF83 1QH

Rhif Ffôn: 029 20852532

Pennaeth: Mrs. S. Sanchez

Ebost: sthelensrcprimary@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 11

Nifer y Derbyniadau: 30

Ysgol 3 i 18

74. Idris Davies School

Cyfeiriad: Mill Field, Abertysswg, Rhymni NP22 5Xf

Rhif Ffôn: 01685 846900

Pennaeth: Mr. R. Owen

Ebost: idrisdaviesschool@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 18

Nifer y Derbyniadau: Primary 34, Secondary 205

Ysgolion Uwchradd

75.Ysgol Uwchradd Bedwas

Cyfeiriad: Newport Road, Bedwas, Caerffili CF83 8BJ

Rhif Ffôn: 029 2085800

Pennaeth: Mr. S. Diehl

Ebost: bedwashigh@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 11 to 19

Nifer y Derbyniadau: 146

76.Ysgol Gyfun Coed Duon

Cyfeiriad: Ty Isha Terrace, Coed Duon NP12 1ER

Rhif Ffôn: 01495 225288

Pennaeth: Mrs. J. Wilkie

Ebost: Coed Duoncomprehensive@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 11 to 16

Nifer y Derbyniadau: 212

77.Ysgol Gyfun Heolddu

Cyfeiriad: Mountain Road, Bargod Cf81 8XI

Rhif Ffôn: 01443 875531

Pennaeth: Mrs. N. Davies

Ebost: heoldducomprehensive@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 11 to 19

Nifer y Derbyniadau: 145

78.Ysgol Uwchradd Islwyn

Cyfeiriad: Waterloo, Oakdale, Coed Duon NP12 0NU

Rhif Ffôn: 01495 233600

Pennaeth: Mr. J. Hicks

Ebost: islwynhighschool@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 11 to 16

Nifer y Derbyniadau: 205

79.Ysgol Lewis Pengam

Cyfeiriad: Gilfach, Bargod CF81 8LI

Rhif Ffôn: 01443 873873

Pennaeth: Mr. C. Parry

Ebost: lewisschoolpengam@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 11 to 19

Nifer y Derbyniadau: 184



80. Ysgol Gyfun Lewis i Ferched

Cyfeiriad: Oakfield Street, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7WW

Rhif Ffôn: 01443 813168

Pennaeth: Mrs. H. Harding

Ebost: lewisgirls@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 11 to 19

Nifer y Derbyniadau: 162

81. Ysgol trecelyn

Cyfeiriad: Bridge Street, Newbridge NP11 5FE

Rhif Ffôn: 01495 243243

Pennaeth: Mr. A. Thomson

Ebost: newbridgeschool@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 11 to 16

Nifer y Derbyniadau: 213

82. Ysgol Gyfun Cymunedol Rhisga

Cyfeiriad: Pontymason Lane, Risca NP11 6YY

Rhif Ffôn: 01633 612425

Pennaeth: Mr. M. Hulland

Ebost: riscacomprehensive@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 11 to 16

Nifer y Derbyniadau: 146

83. Ysgol Gyfun Cenydd Sant

Cyfeiriad: St. Cenydd Road, Trecenydd, Caerffili CF83 2RP

Rhif Ffôn: 029 20852504

Pennaeth: Miss. R. Collins

Ebost: stcenyddschooll@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 11 to 19

Nifer y Derbyniadau: 195

84. Ysgol Gyfun Martin Sant

Cyfeiriad: Hillside, Caerffili CF83 1UW

Rhif Ffôn: 029 20858050

Pennaeth: Mr. L. Jarvis

Ebost: reception@stmartins.Caerffili.sch.uk

Ystoed Oed: 11 to 19

Nifer y Derbyniadau: 183



Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg

85. Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Cyfeiriad: Heol Gelli Haf, Fleur de Lys, Coed Duon NP12 3JQ and Y Gwindy, Pontygwindy Road, Caerffili CF83 3HG

Rhif Ffôn: 01443 875227 and 029 20863367

Pennaeth: Mr. M. Webb

Ebost: ysgolgyfuncwmrhymni@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 11 to 19

Nifer y Derbyniadau: 358

Ysgol Arbennig

86. Ysgol Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod

Cyfeiriad: Caerffili Road, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7XW

Rhif Ffôn: 01443 866000

Pennaeth: Mr. D. Jenkins

Ebost: trinityfieldsschool@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 3 to 18

Uned Gyfeirio Disgyblion

87. The Learning Centre

Cyfeiriad: Hanbury Street, Glanynant, Pengam NP12 3XP

Rhif Ffôn: 01443 875520

Teacher in Charge: Mr. C. Aplin

Ebost: glanynantlearningcentre@sch.caerphilly.gov.uk

Ystoed Oed: 5 to 16

Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ysgolion Dalgylch Medi 2024

Nid yw presenoldeb disgyblion yn yr ysgol iau / cynradd sy'n bwydo yn darparu mynediad awtomatig i'r ysgol uwchradd a ddewiswyd.

Mae'n ofynnol i bob rhiant lenwi ffurflen gais ar yr amser priodol.


Dyrennir lleoedd yn unol â meini prawf derbyn yr awdurdod. Efallai nad yr ysgol y mae eich plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd yw ei h/ysgol ddalgylch. Eich cyfeiriad cartref sy'n penderfynu pa un yw eich ysgol ddalgylch.

Ysgol Uwchradd Bedwas	Ysgol Fabanod Bedwas Ysgol Iau Bedwas Ysgol Gynradd Graig-y-Rhacca Ysgol Gynradd Machen Ysgol Gynradd Plasyfelin Ysgol Gynradd Tynywern
Ysgol Gyfun Coed Duon	Ysgol Gynradd Coed Duon Ysgol Gynradd Cefn Fforest Ysgol Gynradd Fleur-de-Lys Ysgol Gynradd Pengam Ysgol Gynradd Libanus Ysgol Gynradd Markham
Ysgol Gyfun Heolddu	Ysgol Gynradd Aberbargoed Ysgol Gynradd Deri Ysgol Gynradd Gilfach Fargoed Ysgol Gynradd Y Parc Ysgol Santes Gwladys Bargoed Ysgol Gynradd Rhosyn Gwyn (Tirphil)

Ysgol Idris Davies 3-18	Ysgol Gynradd Bryn Awel Ysgol Gynradd Fochriw Ysgol Gynradd Treffilip Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf Ysgol Gynradd y Rhosyn Gwyn (ac eithriol Tirphil)
Ysgol Uwchradd Islwyn	Ysgol Gynradd Bryn Ysgol Gynradd Cwmfelinfach Ysgol Gynradd Penllwyn Ysgol Gynradd Ynysddu Ysgol Gynradd Pontllanfraith Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd Ysgol Gynradd Trinant
Ysgol Gyfun Lewis i Ferched ac Ysgol Lewis, Pengam	Ysgol Gynradd Coedybrain Ysgol Fabanod Cwm Glas Ysgol Gynradd Derwendeg Ysgol Gynradd Glyngaer Ysgol Gynradd Greenhill Ysgol Gynradd Hengoed Ysgol Iau Llancaeath Ysgol Fabanod Llanfabon Ysgol Gynradd Maes-y--cwmwr Ysgol Gynradd Tiryberth Ysgol Gynradd Ystrad Mynach
Ysgol Trecelyn	Ysgol Gynradd Abercarn Ysgol Gynradd Crymlyn Lefel Uchaf Ysgol Gynradd Cwmcarn Ysgol Gynradd Pantside Ysgol Gynradd Pentwynmawr Ysgol Gynradd Tynewydd

Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga	Ysgol Gynradd Rhisga Ysgol Fabanod Ty Isaf Ysgol Gynradd Ty Sign Ysgol Gynradd Waunfawr
Ysgol Gyfun Cenydd Sant	Ysgol Fabanod Cwmaber Ysgol Iau Cwmaber Ysgol Gynradd Cwm Ifor Ysgol Fabanod Hendre Ysgol Iau Hendre Ysgol Gynradd Parc Hendredenny Ysgol Gynradd Nantyparc
Ysgol Gyfun Martin Sant	Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin Ysgol Gynradd Rhydri Ysgol Gynradd Sant Iago Ysgol y Twyn
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Ysgol Gymraeg Cwm Derwen Ysgol Bro Sannan Ysgol Gymraeg Bro Allta Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon Ysgol Gymraeg Terlyn Ysgol Ifor Bach Ysgol Y Lawnt Ysgol Penalltau

Map yn dangos lleoliad ysgolion



Dalgylchoedd Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Saesneg



Dalgylchoedd Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg



Rhan 4 – Blynyddoedd Cynnar

Arweiniad Cychwynol Y Blynyddoedd Cynnar

Mae tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Caerffili yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddarparu rieni a theuluoedd â phlant ifanc 0-7 oed sy'n byw ym mwrdeistref Caerffili.

Mae ein gwasanaeth yn cynnwys tri phrif faes, sef Hwb y Blynyddoedd Cynnar, y tîm Ymyrraeth Gynnar, a'r tîm Gofal Plant. Mae rhagor o wybodaeth a chymorth ar gael yn <https://www.blynyddoeddcynnarcaerffili.co.uk/amdanom-ni/>.

Addysg y Blynyddoedd Cynnar – Arweiniad Cychwynol i Rhieni

Mae lle Addysg Blynyddoedd Cynnar rhan-amser am ddim mewn lleoliad Blynyddoedd Cynnar cymeradwy o'r tymor yn dilyn trydydd pen-blwydd plentyn yn weithredol ar draws y fwrdeistref sirol, i rieni sydd yn dewis eu hawlio.

Gall lle Addysg y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer y plant hynny y mae eu pen-blwydd yn cwmpo rhwng 1 Medi a 31 Mawrth fod mewn:

Dosbarth meithrin mewn lleoliad ysgol;

Lleoliad cyn ysgol neu gylch chwarae cymeradwy; neu Meithrinfa ddydd gymeradwy.

Yn ystod blwyddyn academiaidd pen-blwydd eich plentyn yn 4 oed, mae Addysg y Blynyddoedd Cynnar ond ar gael mewn lleoliad ysgol.

Mae gan eich plentyn yr hawl i o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar rhan amser wedi'i hariannu mewn meithrinfa ran-amser. Gallai hyn fod mewn lleoliad gofal plant wedi'i gymeradwyo gan eich awdurdod lleol (a all fod yn feithrinfa, cylch meithrin a ariennir neu warchodwr plant) neu feithrinfa yn yr ysgol.

Byddai eich plentyn yn dechrau Addysg y Blynyddoedd Cynnar o'r tymor sy'n dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed:

Pen-blwydd y plentyn	Pryd all fy mhleintyn cael mynediad i'w le Addysg y Blynyddoedd Cynnar?
1 Medi - 31 Rhagfyr	Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ionawr
1 Ionawr - 31 Mawrth	Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ebrill
1 Ebrill - 31 Awst	Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Medi

Ydy'r Llefydd Rhan-Amser am Ddim?

Ydyn. Mae pob plentyn yn gymwys i Addysg y Blynyddoedd Cynnar ran-amser am ddim mewn un lleoliad cymeradwy o'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn dair oed.

Sut ydw i'n gwybod fod y lleoliad yn ddarparwydd o ansawdd?

Rhaid i leoliadau'r blynyddoedd cynnar sy'n darparu'r llefydd hyn gael eu harchwilio gan arolygydd addysg gofrestredig ESTYN. Mae lleoliadau gofal plant sydd wedi cael statws 'cymeradwy' (nas-cynhelir), hefyd yn cael archwiliad blynyddol arferol gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, er mwyn cael statws 'cymeradwy', rhaid i leoliadau nas cynhelir gwblhau Safon Ansawdd Caerffili yn gyntaf. Er mwyn cynnig lle rhan-amser am ddim mewn Addysg y Blynyddoedd Cynnar, rhaid i'r holl leoliadau gael eu cynnwys yng Nghynllun y Blynyddoedd Cynnar, a'u caffael trwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gallwch wirio gyda'ch Hwb y Blynyddoedd Cynnar pa leoliadau sydd wedi'u cofrestru i ddarparu addysg, neu gallwch ofyn i'ch darparwydd. Mae yna amrywiaeth o ddarparwyr yn yr ardal sydd wedi'u cofrestru i ddarparu Addysg y Blynyddoedd Cynnar. Gellir cysylltu â'r Tîm Hwb ar 01443 863232 neu <https://www.blynyddoeddcynnarcaerffili.co.uk/cymorth-i-deuluoedd/fis>

Sut byddaf yn gwybod bod fy mhlentyn yn cael Addysg Blynyddoedd Cynnar priodol?

Rhaid bod gan ddarparwyr rhan-amser Addysg y Blynyddoedd Cynnar rhan-amser am ddim athro cymwys. Bydd yr athro yn cynghori staff y blynyddoedd cynnar sy'n gweithio gyda'r plant, yn cynnig cymorth ac arweiniad i'r lleoliad a gweithio gyda'r grŵp i gyrraedd y safonau a ddisgwyliar gan ESTYN. Rhaid i'r darparwyr gael eu harchwilio gan ESTYN. Bydd yr arolygydd yn sicrhau bod safon uchel o addysg yn cael ei darparu a bod y Cwricwlwm newydd i Gymru (wedi'i gyhoeddi yn 2022) yn cael ei weithredu. Mae dogfen Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn cynnwys arweiniad ar gyfer ymarfer da ledled Cymru. Mae'r cwricwlwm hwn yn anelu at greu mewn plant dueddiadau cadarnhaol tuag at ddysgu a fydd, o'u meithrin, yn para am oes ac yn darparu'r sylfaen gadarn sydd ei hangen ar ein holl blant i'w helpu i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn helpu plant i ddatblygu i fod:

- Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau 44
- Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a mewn gwaith
- Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd
- Yn unigolion iach, hyderus sydd barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Dyma'r ddolen i'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir (gov.wales)

Sut ydw i'n gallu defnyddio'r Cynllun o fewn Lleoliad Nas Cynhelir?

Os ydy'r lleoliad wedi'i gofrestru i ddarparu addysg, yna dylai arweinydd y grŵp chwarae, neu reolwr y feithrinfa ('y person â chyfrifoldeb') allu rhoi rhagor o wybodaeth i chi. Os nad yw'r lleoliad wedi'i gofrestru, yna bydd angen i chi ddod o hyd i grŵp yn eich ardal sydd wedi'i gofrestru - gallwch gysylltu â naill ai'r Hwb y Blynyddoedd Cynnar ar 01443 864870 neu'r 01443 863232 am restr o'r holl ddarparwyr yng Nghynllun y Blynyddoedd Cynnar neu ewch i www.blynyddoeddcynnarcaerffili.co.uk/cymorth-i-deuluoedd/fis/. Gallwch wneud cais trwy fynd ar-lein yn www.caerffili.gov.uk a dewis y lleoliad priodol y Blynyddoedd Cynnar. Rhaid cwblhau a dychwelyd hwn erbyn y dyddiad a nodwyd. Wedyn, bydd y person â chyfrifoldeb yn cysylltu â'r Awdurdod Lleol i ddarparu'ch plentyn â lle rhan-amser am ddim. Os ydych wedi llenwi ffurflen derbyn ar gyfer mwy nag un lleoliad, eich cyfrifoldeb chi yw hi i hysbysu'r lleoliad nad oes angen y lle arnoch chi bellach fel y gall y cais gael ei dynnu'n ôl. Rhaid gwneud hwn erbyn pedwaredd wythnos y tymor. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.blynyddoeddcynnarcaerffili.co.uk/cymorth-i-deuluoedd/fis/

Cynnig Gofal Plant Cymru

Gallai plant cymwys 3/4 oed fod â'r hawl i ofal plant a ariennir gan y llywodraeth o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed nes eu bod yn cael lle addysg amser llawn - fel arfer y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. 45 Yn ystod y tymor, ar ben y 10 awr a ddarperir eisoes gan le Addysg y Blynyddoedd Cynnar rhanamser, gallai plant fod â'r hawl i gael 20 awr o ofal plant. Yn ystod gwyliau'r ysgol, bydd rhieni yn gallu cael hyd at 30 awr o ofal plant. Bydd rhieni cymwys sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio neu'n ennill gyfwerth ag 16 awr yr wythnos neu fwy ar gyflog byw cenedlaethol / isafswm cyflog cenedlaethol neu sy'n cael budd-daliadau penodol. Y terfyn uchaf ar gyfer enillion, ar hyn o bryd, yw £100,000 ar gyfer pob rhiant. O fis Medi 2022, efallai y bydd rhieni sy'n cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant hefyd yn gymwys i wneud cais am y Cynnig Gofal Plant. I wirio os ydych yn gymwys, ewch i www.caerffili.gov.uk/cynniggofalplant neu ffoniwch Hwb y Blynyddoedd Cynnar ar 01443 863232.

Lleoliadau Nas Cynhelir Y Blynyddoedd Cynnar - Meithrinfeydd Dydd

Meithrinfa Ddydd Little Einsteins Academy

Bloc B,

Canolfan Fenter Britannia,

Coed Duon NP12 3SP

Cyswllt: Stacy Bishop

Rhif Ffon: 01443 879750

E-bost: stacy@littleeinsteinsacademy.com

Meithrinfa Ddydd Mini Miners

57 Cameron House,

Y Stryd Fasnachol,

Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7DW

Cyswllt: Laura James

Rhif Ffon: 01443 520370

E-bost: miniminerscluc@gmail.com

Meithrinfa Ddydd Jellytotz

Uned 3a,

Bloc B,

Ystâd Ddiwydiannol Trecelyn,

Coed Duon NP12 2XF

Cyswllt: Laura Ford and Dana Wynn

Rhif Ffon: 01495 225502

E-bost: jellytotzchildcareltd@gmail.com

Lleoliadau Nas Cynhelir Y Blynyddoedd Cynnar – Cylchoedd Chwarae – Cyfrwng Saesneg

Little Acorns Preschool (Caerphilly) Ltd

d/I Ysgol Gynradd Derwendeg

Heol Hengoed

Cefn Hengoed

Hengoed CF82 7HP

Cyswllt: Claire Greenway

Rhif Ffon: 01443 813138/ 07929 078498

E-bost: clairegreenway1@gmail.com

Cylch Chwarae Cymuned Markham

Adeiladau'r Sefydliad,

Heol Abernant,

Markham NP12 0QH

Cyswllt: Helen Williams

Rhif Ffon: 01495 220364/ 07783 630085

E-bost: miss-helen-williams@hotmail.com

Tiddlers Wrap Around

d/I Ysgol Gynradd Tyn-y-Wern,

Heol yr Ysgol,

Tretomos CF83 8FL

Cyswllt: Beverly Dickinson

Rhif Ffon: 07783 026617

E-bost: tiddlerswraparound@outlook.com

Lleoliadau Nas Cynhelir Y Blynyddoedd Cynnar – Cylchoedd Meithrin

Cylch Meithrin Coed Duon

Ysgol Gyfun Coed Duon,

Ty Isha Terrace,

Coed Duon NP12 1ER

Cyswllt: Andrea Parfitt

Rhif Ffon: 01495 227113

E-bost: cmcoeddun.cwmderwen@outlook.com

Cylch Meithrin Cwm Derwen

Ysgol Gymraeg Cwm Derwen

Beech Grove

Oakdale NP12 0JL

Cyswllt: Andrea Parfitt

Rhif Ffon: 01495 227113

E-bost: cmcoedduon.cwmderwen@outlook.com



Dewi Sant

Eglwys Dewi Sant,

Tŷ Sign,

Rhisga

Cyswllt: Sarah Townsend

Rhif Ffon: 07519 382508

E-bost: dewi_sant@sky.com

Cylch Meithrin Nelson

Gyferbyn â'r orsaf bysiau

Cyswllt: Sharon Townsend

Rhif Ffon: 07944 634 834

E-bost: cylchmeithrinnelson@hotmail.com

Cylch Meithrin Ton y Felin

Capel Tonyfelin

Caerffili

Cyswllt: Leader

Rhif Ffon: 07741 497904

E-bost: cylchmeithrintonyfelin@yahoo.com

Cylch Meithrin Pontllanfraith

Pafiliwn y Bryn,

Ystâd y Bryn,

Bryn Road,

Pontllan-fraith,

Coed Duon NP12 2DA

Cyswllt: Georgina Clifford

Rhif Ffon: 01495 227738/ 07587 735423

E-bost: cmpontllanfraith@hotmail.com



Cylch Meithrin yr Enfys

d/I Clwb Merched a Bechgyn

Ystrad Mynach,

Lisburn Road,

Ystrad Mynach CF82 7AS

Cyswllt: Lisa Styles

Rhif Ffon: 07903 368454

E-bost: lisastyles62@yahoo.co.uk

Cylch Meithrin Tedi Twt

d/I Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed,

Commercial Street,

Bargod CF81 8GJ

Cyswllt: Kate Jenkins

Rhif Ffon: 07847 284830

E-bost: cmteeditwt@gmail.com



Rhan 5 – Cwricwlwm Ysgol

Ar hyn o bryd mae addysg plant yng Nghymru wedi'i rhannu'n bedwar cyfnod:

- Mae'r Cyfnod Sylfaen yn darparu ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed;
- Mae Cyfnod Allweddol 2 yn 7 i 11 oed;
- Mae Cyfnod Allweddol 3 yn 11 i 14 oed;
- Mae Cyfnod Allweddol 4 yn cymryd dysgwyr hyd at 16 oed.

Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen

Mae'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 i 7 oed.

Datblygir y Cwricwlwm dan saith faes dysgu.

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol.
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.
- Datblygiad Mathemategol.
- Datblygu'r Iaith Gymraeg.
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.
- Datblygiad Corfforol.
- Datblygiad Creadigol.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn datblygu dysgu trwy ennill profiad uniongyrchol trwy chwarae a chymryd rhan weithredol. Mae'r dull hwn yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn gwella hunan-barch, ac yn datblygu ystod o sgiliau trwy archwilio ac ymchwilio. Mae mwy o bwyslais hefyd ar weithgareddau sy'n defnyddio'r amgylchedd awyr agored, lle mae plant yn cael cyfle i ddysgu am y byd naturiol o'u cwmpas.

Cyfnod Allweddol 2

Ar hyn o bryd mae plant rhwng 7 ac 11 oed yn dilyn rhaglenni astudio a nodir yn y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2. Bydd eu haddysg yn adeiladu ar y profiadau a'r dysgu a gafwyd yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi'i ddylunio o amgylch pynciau a sgiliau. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu sylfaen gadarn mewn iaith, mathemateg a gwyddoniaeth, gan roi'r cyfle i blant gyflawni eu gorau o fewn cwricwlwm eang a chytbwys. Mae cefnogi plant i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd da wrth wraidd dysgu i blant mewn ysgolion cynradd.

Mae'r disgyblion yn dilyn cwricwlwm cyfoethog ac amrywiol a gynlluniwyd i roi'r cyfle iddynt ddysgu am:

- Saesneg;
- Cymraeg neu Gymraeg ail iaith;
- Mathemateg;
- Gwyddoniaeth;
- Dylunio a thechnoleg;
- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);
- Hanes;
- Daearyddiaeth;
- Cerddoriaeth;
- Celf a dylunio;
- Addysg gorfforol (AddGorff).

Ochr yn ochr â'r cwricwlwm cenedlaethol, rhaid i ysgolion hefyd ddarparu addysg grefyddol (AG) ac addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Nid oes rhaid i ysgolion cynradd ddarparu addysg ryw ond gallant ddarparu rhaglen ryw a pherthynas ehangach os yw corff llywodraethu'r ysgol yn teimlo bod hyn yn briodol.

Cwricwlwm newydd i Gymru – Cam Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4

Mae cwricwlwm newydd yn cael ei weithredu ar hyn o bryd ar gyfer disgyblion 3 - 16 oed a fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar baratoi pobl ifanc am oes. Bydd yn adeiladu ar eu gallu i ddysgu sgiliau newydd a chymhwyso eu gwybodaeth bynciol yn fwy cadarnhaol a chreadigol. Mae fframwaith cymhwysedd digidol newydd bellach yn cyflwyno sgiliau digidol ar draws y cwricwlwm, gan eu paratoi ar gyfer y cyfleoedd a'r risgiau y mae byd ar-lein yn eu cyflwyno.

Ffocws canolog y trefniadau asesu fydd sicrhau bod dysgwyr yn deall sut maen nhw'n perfformio a'r hyn y maeangen iddynt ei wneud nesaf. Bydd pwyntiau cyfeirio yn helpu dysgwyr, athrawon, rhieni a gofalyddion i ddeall a yw cynnydd priodol yn cael ei wneud. Byddant yn gosod disgwyliadau ar gyfer disgyblion ym mhob maes o'u dysgu yn ymwneud yn fras ag oedran 5, 8, 11, 14 ac 16

Diben y cwricwlwm newydd yw cefnogi dysgwyr i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau;
- Gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- Ddinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd;
- Unigolion iach, hyderus, yn barod i arwain bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bydd ganddo chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad'.

1. Celfyddydau mynegiannol;
2. Iechyd a lles;
3. Dyniaethau (gan gynnwys AG a ddylai aros yn orfodol hyd 16 oed);
4. Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (gan gynnwys Cymraeg, a ddylai aros yn orfodol hyd 16 oed, ac ieithoedd tramor modern);
5. Mathemateg a rhifedd;
6. Gwyddoniaeth a thechnoleg.

Bydd hefyd yn cynnwys tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd: llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Pontio i'r Ysgol Uwchradd

Yn gyffredinol, bydd plant yn symud i'r ysgol uwchradd yn y mis Medi cyn iddynt gyrraedd deuddeg mlwydd oed. Pan fydd eich plentyn ym mlwyddyn olaf yr ysgol gynradd, bydd yr awdurdod lleol yn anfon gwybodaeth atoch yn nodi sut i wneud cais am le mewn ysgol uwchradd. Mae hyn fel arfer yn digwydd yn ystod tymor cyntaf y flwyddyn olaf i blant yn yr ysgol gynradd.

Gallai trefniadau rhwng ysgol eich plentyn a'r ysgolion uwchradd lleol gynnwys ymweliadau â'r ysgol uwchradd i blant gael cip arnynt a chwrdd â phrif aelodau'r staff, sesiynau gwybodaeth ac ymweliadau gan athrawon ysgol uwchradd i'r ysgol gynradd.

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh)

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh) yn helpu pob dysgwr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd rhagorol yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae'n darparu datblygiad parhaus ar gyfer plant 3-16 oed, gan nodi'n glir y canlyniadau blynyddol disgwylidig ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

Cefnogir pob plentyn i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd cadarn y gellir eu cymhwyso mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ar draws ystod eang o weithgareddau. Mae llythrennedd yn disgrifo set o sgiliau, gan gynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Mae rhifedd yn disgrifo'r defnydd o sgiliau rhif, mesur a data, a'r gallu i adnabod a defnyddio'r sgiliau hyn i ddatrys problemau.

Mae'r FfLIRh yn nodi disgwyliadau llythrennedd a rhifedd ar gyfer pob grŵp blwyddyn a bydd yn helpu plant i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd drwy bob pwnc yn y cwricwlwm cenedlaethol a thrwy ddefnyddio ystod eang o weithgareddau.

Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

Mae'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, ar gyfer pob plentyn ym Mlynnyddoedd 2 i 9, yn helpu ysgolion i asesu medrau darllen a rhifedd disgyblion ac ennill dealltwriaeth gliriach o gynnydd dysgwyr.

Bagloriaeth Cymru

Datblygwyd Bagloriaeth Cymru newydd, a gyflwynwyd o fis Medi 2015 ar gyfer disgyblion Cyfnod

Allweddol 4, i alluogi dysgwyr i gaffael a mireinio ystod o sgiliau a gynlluniwyd ar gyfer y gweithle.

Mae'r sgiliau'n cynnwys:

- Cyfathrebu;
- Rhifedd;
- Llythrennedd digidol;
- Cynllunio a threfnu;
- Creadigrwydd ac arloesedd;
- Meddwl beirniadol a datrys problemau;
- Effeithiolrwydd personol.

Sut mae plant yn cael eu hasesu?

Bydd athro eich plentyn yn asesu pob agwedd ar waith ysgol a bydd yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau asesu fel rhan o ymagwedd gyfunol at ddysgu, addysgu, cynllunio ac asesu. Bydd yr athro / athrawes yn asesu beth y mae'ch plentyn yn ei wybod ac y gallant ei wneud a byddant yn dehongli canlyniadau'r asesiadau hyn i wella dysgu eich plentyn.

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, bydd yr athro / athrawes yn penderfynu pa lefel ar raddfa'r cwricwlwm cenedlaethol sy'n adlewyrchu'r cynnydd gorau o'ch plentyn ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn Saesneg, Cymraeg (naill ai fel iaith gyntaf neu ail iaith), mathemateg a gwyddoniaeth, bydd eich plentyn yn cael ei asesu ar y safonau a nodir yn rhaglenni astudio'r cwricwlwm cenedlaethol.

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, asesir y disgyblion yn bennaf drwy gymwysterau achrededig y Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU).

Ar hyn o bryd, asesir disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 gan ddefnyddio ystod o fesurau, gan gynnwys:

- Mesur Capió 9
- Mesur Llythrennedd
- Mesur Rhifedd
- Mesur Gwyddoniaeth
- Dylunio a thechnoleg
- Tystysgriff her sgiliau
- Bagloriaeth Cymru

Mae disgyblion hefyd yn gallu ymgymryd ag ystod o gyrsiau galwedigaethol a chysylltiedig â gwaith eraill y gall yr ysgol ei chynnig.

Hawl i weld Dogfennau

Rhaid i bob ysgol ganiatáu i'r rhieni weld y dogfennau canlynol ar bob adeg resymol:-

- Datganiad Cwricwlwm Polisi yr Adran Addysg, Datganiad o Nodau Cwricwlwm yr ysgol a Pholisi Cwricwlwm yr ysgol;
- Holl gylchlythyrau ac offerynnau statudol Llywodraeth Cymru;
- Holl adroddiadau cyhoeddedig Arolygwyr Ei Mawrhydi yn ymwneud â'r ysgol;
- Holl gynlluniau gwaith a meysydd llafur;
- Trefniadau ar gyfer ystyried cwynion ynglŷn â'r cwricwlwm;



- Y maes llafur cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol;
- Polisi Codi Tâl a Dilead yr Awdurdod a'r Corff Llywodraethu.



Rhan 6 – Iaith

Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb, a dylai pob plentyn gael y cyfle i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol.

Mae Cyngor Caerffili yn sicrhau bod addysg ar gael mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i bob disgybl y mae ei rieni yn ei ddewis.

Nid yw mwyafrif y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn siarad Cymraeg gartref. Cyn diwedd eu blwyddyn gyntaf, byddan nhw'n siarad â'u ffrindiau newydd yn Gymraeg!

Pan fydd plentyn yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg, bydd yn gadael yn gallu siarad Saesneg i'r un safon â phlant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Ar ben hynny byddant yn gallu siarad Cymraeg i'r un safon.

Gall disgyblion barhau â'u haddysg ar un o ddau gampws Ysgol Uwchradd cyfrwng Cymraeg, ac wedi hynny defnyddio'u Cymraeg wrth hyfforddi, astudio a gweithio.

Dewis Addysg Gymraeg

Yng Nghaerffili, mae tua 20% o blant yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg, ac wrth eu bodd yn chwarae a dysgu mewn dwy iaith, neu fwy.

Pan fydd plentyn yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg, bydd yn gadael yn gallu siarad Saesneg i'r un safon â phlant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Ar ben hynny byddant yn gallu siarad Cymraeg i'r un safon.

Mae Ysgolion cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar ac yna'n dod â'r Saesneg i mewn wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r plant yn hapus yn siarad yn y ddwy iaith.

Mae rhai plant yn dechrau mewn Ti a Fi (grŵp plant bach cyfrwng Cymraeg) a gofal plant cyfrwng Cymraeg. Beth bynnag rydych chi'n siarad gartref, gall pawb ymuno ag Ysgol Gynradd Gymraeg ac yna mynd ymlaen i un o ddau gampws Uwchradd cyfrwng Cymraeg. Nid yw byth yn rhy hwyr; gyda chefnogaeth gan ein Huned Trochi Hwyrddyfodiaid gall plant sydd eisoes mewn Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg drosglwyddo i Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg.

Dyfyniad

Rwyf wedi penderfynu ar Addysg Gymraeg i fy merch oherwydd rwy'n teimlo y bydd yn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd iddi. Rwy'n teimlo y bydd yn agor llawer o ddrysau ac yn darparu mwy o gyfleoedd iddi yn ei bywyd fel oedolyn, yn enwedig os yw'n dewis gweithio yng Nghymru. Mae manteision niferus dwyieithrwydd wedi llywio fy mhenderfyniad hyd yn oed yn fwy! Vicky Hughes, mam Sophia.

amser chwarae / brechdan caws / peldroed / cwtsh / ci bach / ble mae'r esgidiau?

Beth bynnag rydych chi'n siarad gartref, mae plant yn ffynnu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Yng Nghaerffili, daw tua 88% o'n dysgwyr mewn Addysg cyfrwng Cymraeg o gartrefi di-Gymraeg.

Mae ein hysgolion yn siarad Cymraeg a Saesneg gyda rhieni, ac eisiau i rieni deimlo'n rhan o gymuned yr ysgol.

Efallai y byddwch chi'n codi ychydig o'r iaith gan y plant. Byddwch chi'n clywed geiriau efallai y byddwch chi'n eu gwybod yn barod, tybed:

amser chwarae / brechdan caws / peldroed / cwtsh / ci bach / ble mae'r esgidiau?

Mae ysgolion yn creu amgylchedd dysgu sy'n addas ar gyfer pob plentyn unigol. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg mae plant yn cael eu trochi mewn amgylchedd Cymraeg lle maent yn amsugno'r iaith wrth wneud cynnydd yn eu datblygiad corfforol, eu llesiant, eu cyfathrebu, eu fforio a'u llwybrau perthyn, ar eu cyflymder eu hunain.

Mae gan fy mhlentyn anghenion ychwanegol ac mae'n gwneud yn dda iawn yn YGG Caerffili.

Mae plant ag anghenion ychwanegol yn gwneud ffrindiau yn eu hysgol a'u cymuned leol. Mae pob un o'n timau staff ysgol wedi cael hyfforddiant ar ddarparu'r hyn sy'n bwysig i'ch plentyn mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg. Yn yr awdurdod lleol mae gennym hefyd staff arbenigol sy'n siarad Cymraeg sy'n gallu cefnogi staff mewn ysgolion.

Efallai y bydd angen cymorth mwy penodol ar rai plant ac efallai y bydd angen iddynt gael mynediad i leoliad Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA). Mae gan Ysgol Cwm Derwen ein CAA Cymraeg ar gyfer plant oedran Cynradd. Mae gan Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ddarpariaeth arbenigol o'r enw Hafan yn y Gwyndy a'r Ganolfan ar safle Gellihaf lle gall ein pobl ifanc oedran Uwchradd sydd angen cefnogaeth fwy penodol deimlo eu bod yn cael eu cynnwys.

Pam fod siarad Cymraeg mor boblogaidd yng Nghaerffili?

Mae llawer o bobl yn siarad Cymraeg yn lleol, mae'n rhoi teimlad o berthyn i bobl ac eisiau i'w plant ei siarad hefyd. Mae rhieni a gofawyr am anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg, fel eu bod yn cael y profiad cyflawn o siarad Cymraeg na chawsant fel plant.

Mae ysgol cyfrwng Cymraeg yn agos atoch chi ac os ydych chi'n byw mwy na 2 filltir i ffwrdd o'ch ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf byddwn yn darparu cludiant am ddim.

Beth am cyn i blant ddechrau'r ysgol a thu allan i'r ysgol?

Mae cyfleoedd i blant a theuluoedd gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn iddynt ddechrau'r ysgol yn Ti a Fi (grwpiau rhieni a phlant bach) a Dechrau'n Deg (Dechrau'n Deg i blant 2 oed) a Chylch Meithrin (gofal plant cyn ysgol i blant 2-3 oed).

Unwaith y byddant yn dechrau yn yr ysgol mae cyfleoedd ym mhob ysgol gynradd ar gyfer gofal plant cyfrwng Cymraeg. Clwb Meithrin (gofal cofleidiol i blant 3-4 oed) a Chlwb Carco (gofal ar ôl ysgol i blant 4-11 oed), yn ogystal â chlybiau ieuenctid Menter Iaith a'r Urdd a digwyddiadau i bobl ifanc.

Gallwch ddysgu Cymraeg gyda'ch plentyn trwy Cymraeg i Blant, Cymraeg i'r Teulu a Dysgu Cymraeg Morgannwg / Gwent yn ogystal â thrwy apiau am ddim fel Duo Lingo a 'Say Something in Welsh'.

Beth os yw fy mhlentyn mewn Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd, ac rwyf am ei symud i Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg?

Mae gennym dîm profiadol yng Nghanolfan Gwenllian, ein huned drochi hwyrddyfodiaid yn Ysgol Gilfach Fargoed, sy'n gallu helpu plant i ddysgu Cymraeg yn gyflym i gefnogi eu trosglwyddiad i Addysg Gymraeg.

Yn gyffredinol, mae hyn yn cymryd un i ddau dymor yn dibynnu ar anghenion y plentyn. Yn ystod y cyfnod pontio bydd eu hamser yn cael ei rannu rhwng eu hysgol gartref (yr un y gwnewch gais iddi ar gyfer eich Addysg cyfrwng Cymraeg wrth symud ymlaen) a'r uned drochi (i gefnogi caffael Cymraeg dwys).

Am ragor o wybodaeth siaradwch â phrifathro'r ysgol cyfrwng Cymraeg yr ydych yn gwneud cais i'w mynychu.

Addysgu Cymraeg fel Ail Iaith Mewn Ysgolion Cyfrwng Saesneg

Yn y Cyfnod Sylfaen addysgir Cymraeg i bob disgybl. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio'r iaith yn bwrpasol ac mewn sefyllfaoedd ystyrlon. Yn ogystal, anogir defnydd achlysurol o'r iaith yn ystod y diwrnod ysgol.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, datblygir yr iaith ymhellach ar lafar, a rhoddir mwy o sylw i sgiliau addysgu, darllen ac ysgrifennu.

Yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 dysgir Cymraeg i bob disgybl. Darperir cyfleoedd ym mhob ysgol i ddisgyblion barhau â'u hastudiaethau ar gyfer arholiadau 16+ a Safon Uwch.

Mae'r Gymraeg yn un o ofynion gorfodol y Cwricwlwm i Gymru, ac mae pob plentyn yn dysgu Cymraeg mewn ysgol cyfrwng Saesneg.

Yr uchelgais yw bod pawb sy'n dysgu mewn ysgol neu leoliad yng Nghymru yn cael eu cefnogi i fwynhau defnyddio'r Gymraeg, i wneud cynnydd parhaus wrth ddysgu Cymraeg ac i gael yr hyder a'r sgiliau iaith fel y gallant ddewis defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.



Section 7 – Cwynion

Cwynion Ysgol

Rydym yn cymryd unrhyw gŵyn yn ddifrifol iawn ac mae'n ofynnol i ysgolion gael gweithdrefnau ar waith ar gyfer ymdrin â hwy. Fel arfer, gall unrhyw bryderon sydd gennych am addysg eich plentyn gael eu setlo drwy siarad â'r pennaeth, yr athro dosbarth neu aelod arall o'r staff.

Cwyn Ffurfiol

Os oes gennych gŵyn am ysgol, rhaid i chi wneud eich cwyn yn uniongyrchol i'r ysgol. Mae manylion cyswllt ar gyfer pob un o'n hysgolion ar gael drwy ddefnyddio ein cyfleuster Dod o hyd i ysgol. Rydym yn argymhell eich bod yn gofyn i'r ysgol am gopi o'u Polisi Cwynion fel y gallwch chi ddeall yn union sut y byddant yn ymdrin â'ch cwyn.

Rhaid i gyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion meithrin, sefydlu gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion gan rieni, disgyblion, aelodau staff, llywodraethwyr, aelodau'r gymuned ac eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod cyrff llywodraethu ysgolion yn sefydlu dull tri cam o ddatrys cwynion fel a ganlyn: -

Cam 1: Cam anffurfiol lle gellir codi a datrys y gŵyn. Fel rheol, ni fydd cwyn yn symud i gyfnod 2 hyd nes y bydd wedi'i ystyried o dan gam 1.

Cam 2: Cam ffurfiol.

Cam 3: Cyfeirir y mater at Bwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethol. Dylai'r weithdrefn gwyno ysgolion gynnwys manylion mwy penodol am bob un o'r camau hyn.

Gwybodaeth bellach

Am fwy o wybodaeth am broses cwynion ysgolion cysylltwch â'r ysgol. Fel arall, cysylltwch â'r swyddog cwynion ar CwynionAddysg@caerffili.gov.uk neu 07511 414625 a fydd yn falch i'ch cyngori.

Cwynion dysgu eraill

Mae prosesau statudol eraill ar gyfer cwynion ac apeliadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, ad-doli crefyddol, derbyniadau, Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), gwaharddiadau, cwynion staff, disgyblu staff a gallu athrawon.

Section 8 – Cynhwysiad

Hyrwyddo Cynhwysiant, Llesiant a Chefnogi Plant i Ddysgu

Mae Llywodraeth Cymru (LIC) a'r Llywodraeth Genedlaethol wedi cyflwyno ystod o ganllawiau ar anghenion addysgol arbennig. Mae statws statudol i rai ohonynt, ac felly mae angen i Awdurdodau Lleol, ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a lleoliadau addysgol eraill roi ystyriaeth iddynt. Ym mis Ionawr 2018, rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae hyn yn amlinellu fframwaith statudol newydd am gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i hyrwyddo cynhwysiant a lles a chefnogi pob plentyn i fod yn barod i ddysgu. Mae'r ALI yn adolygu ac yn datblygu ystod o strategaethau, polisiau a chanllawiau i gefnogi ei weledigaeth ac i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau statudol. Mae'r ALI yn cymryd golwg gyfannol gan ganolbwyntio ar ddeall sut y gall materion allweddol ym mlynnyddoedd cynnar plant, megis tlodi ac ACES, effeithio ar gyrhaeddiad. Yn y cyd-destun hwn, mae ffocws yr ALI ar wella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer grwpiau agored i niwed o ddysgwyr, ymyrraeth gynnar, gweithio mewn partneriaeth, lleihau cyfraddau gwaharddiadau (gan fod y rhain yn effeithio ar gyrhaeddiad a chanlyniadau disgyblion), sicrhau rhagoriaeth mewn lles dysgwyr, a sicrhau bod yr ALI yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys 2018 (dyddiad gweithredu Medi 2021).

Mae'r Awdurdod Lleol (ALI) o'r farn bod cynhwysiant yn egwyddor sylfaenol sy'n sail i'r holl arferion a gweithdrefnau ac mae'r ALI wedi ymrwymo i system addysg effeithiol a chynhwysol lle mae pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal
- yn cael eu trin â pharch
- yn ganolog i ac yn gallu cymryd rhan mewn prosesau sy'n effeithio arnynt a gallu lleisio eu barn
- yn cael cyfleoedd cyfartal
- yn cael cyfleoedd i gyflawni ac yn cael eu cefnogi i symud ymlaen yn gyfannol yn unol â'u hanghenion dysgu unigol

Mae'r partneriaethau allweddol gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA), gwasanaethau lleol a rhanbarthol, ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yn hanfodol

wrth hwyluso cefnogaeth a darpariaeth o ansawdd uchel a datblygu gwybodaeth a sgiliau staff ysgolion i gefnogi plant yn effeithiol a darparu mynediad at gwricwlwm. sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac sy'n datblygu pedwar pwrpas Cwricwlwm Cymru.

Ar gyfer lleiafrif o blant a phobl ifanc ag anghenion difrifol a chymhleth, cydnabyddir bod angen gwneud trefniadau darpariaeth eraill. Yn CBSC mae continwmm o ddarpariaeth arbenigol sy'n cynnwys Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod, sy'n ganolfan ragoriaeth addysg arbennig, ac yn ganolfan adnoddau arbenigol â chysylltiad ag ysgolion priif ffrwd. Mae'r cyfleusterau hyn yn cynnwys adnoddau priodol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig sylweddol.

Mae Gwasanaethau Cymorth Canolog hefyd yn cynnig ystod eang o wasanaethau arbenigol peripatetig i gefnogi ysgolion i ddiwallu anghenion penodol megis cwnsela a CBT, gwaith systemig a llunio seicolegol, hyfforddiant a gweithdai, cefnogaeth lles i staff, cefnogaeth i ysgolion yn dilyn digwyddiadau critigol, cefnogaeth ar gyfer dysgu, arweiniad ynghylch rheoli ymddygiad, cefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal ac arweiniad ynghylch y broses statudol a diwygio'r ADY.

Gellir darparu mwy o wybodaeth am wasanaethau'r ALL trwy gysylltu â'r Tîm ADY ar 01443 866610/01443 866683/01443 866639.

Diogelu mewn Addysg

Busnes pawb yw diogelu. Mae'r Cyfarwyddiaethau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant ac i ddarparu cefnogaeth a chynghor i ysgolion a darparwyr, gan sicrhau bod gwasanaethau cyfannol yn cael eu darparu i blant sy'n agored i niwed. Mae Amddiffyn Plant yn rhan o gylch gwaith ehangach Diogelu.

Mae gan y Gyfarwyddiaeth Addysg gydlynnydd diogelu sy'n gweithio gydag ysgolion a darparwyr a chydweithwyr gwasanaethau cymdeithasol, ac yn mynychu grwpiau rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod y wybodaeth, yr arweiniad a'r gefnogaeth ddiweddaraf ar gael i ysgolion a darparwyr.

Mae'r cydlynnydd diogelu addysg yn gyfrifol am oruchwylio archwiliadau ysgolion, hyfforddiant, cefnogaeth i ysgolion ynghylch pryderon proffesiynol (gyda chydweithwyr o adnoddau dynol) a sicrhau cydymffurfiaid â'r gweithdrefnau diogelu Newydd.

Section 9 – Health

Brechiadau

Cyn i'ch plentyn chi ddechrau yn yr ysgol, mae'n bwysig eu bod nhw wedi cael eu brechiadau diweddaraf, er mwyn iddyn nhw gael eu hamddiffyn rhag nifer o glefydau sy'n gallu cael eu hatal drwy frechu. Bob blwyddyn, mae brechu yn arbed mwy o fywydau ledled y byd nag unrhyw ymyriad meddygol arall. Yng Nghymru, mae brechu yn fesur allweddol wrth gadw plant yn iach a rhoi'r dechrau gorau iddyn nhw mewn bywyd.

Mae brechiadau arferol i blant yn hynod effeithiol, yn ddiogel ac am ddim. Bydd brechiadau eraill yn cael eu trefnu drwy gydol oes ysgol eich plentyn. Pan fydd eich plentyn i fod i gael brechiad yn yr ysgol, byddwch chi'n cael llythyr gwybodaeth a ffurflen ganiatâd yn electronig gan yr ysgol. Mae'n bwysig eich bod chi'n llenwi, llofnodi a dychwelyd y ffurflen ganiatâd yn brydlon. Am ragor o wybodaeth ewch i: <https://111.wales.nhs.uk/LiveWell/vaccinations/default.aspx?locale=cy&term=A>

Nyrsio Ysgol

Cyngor a Chymorth

Mae Nyrsys Ysgol yn weithwyr proffesiynol cymwysedig gyda hyfforddiant a phrofiad arbenigol mewn iechyd plant a hybu iechyd. Gallwn ni weithio gyda phlant oedran ysgol unigol a'u teuluoedd i wella iechyd.

Rydyn ni'n gweithio mewn timau ledled Caerffili a bwrdeistrefi eraill Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Ein nod yw cynorthwyo plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i fyw bywydau iach. Rydyn ni'n darparu'r rhaglen Plant Iach Cymru, a bydd pob plentyn oed dosbarth derbyn yn cael cynnig cyswllt Nyrs Ysgol a fydd yn cynnwys mesur taldra, pwysau a golwg gan y gwasanaeth Nyrs Ysgol a mesur clyw gan y gwasanaeth Awdioleg.

Mae gan bob teulu a phlentyn fynediad at Nyrs Ysgol a all roi cyngor ar amrywiaeth o faterion iechyd.

Gall y rhain gynnwys:

- Datblygiad plant
- Twf a maeth
- Bwyta'n iach
- Imiwneiddiadau

- Diogelwch ac atal damweiniau
- Hybu iechyd
- Perthynasau
- Enwresis (gwlychu'r gwely)
- Rhwymedd a baeddu
- Lles Emosiynol
- Ymddygiad

Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr a phe bai angen cyngor pellach arnoch chi, cysylltwch â Phwynt Mynediad Sengl Nyrsys Ysgol ar 01633 431685.



Section 10 – Cludiant Ysgol

Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau Teithio Dysgwyr

Mae Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) sicrhau bod gwybodaeth ar gael am ei bolisiâu a'r trefniadau a roddir ar waith ar gyfer cludo dysgwyr.

Wrth wneud hynny, mae Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau Teithio Dysgwyr y Cyngor yn cynnwys canllawiau sydd wedi'u cynllunio i hysbysu rhieni, gofalmwyr a dysgwyr ar sut mae'r polisi'n cael ei weithredu'n ymarferol a sicrhau ei fod yn cael ei gymhwyso'n gyson ac yn deg ledled y Fwrdeistref Sirol.

Bydd unrhyw benderfyniadau a wneir gan Swyddogion y Cyngor ynghylch hawl yn seiliedig ar y ddogfen hon ac, yn amodol ar gydymffurfio â'r wybodaeth a gynhwysir ynddo, yn cael eu hystyried yn derfynol.

Darpariaeth Cludiant am Ddim Statudol

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i:

- Asesu anghenion teithio dysgwyr yn ei ardal.
- Darparu cludiant cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu Ysgol Gynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'u hysgol "berthnasol".
- Darparu cludiant cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol uwchradd sy'n byw 3 milltir neu ymhellach o'u hysgol "berthnasol".
- Asesu a diwallu anghenion plant sy'n "derbyn gofal" yn ei ardal.
- Hyrwyddo mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.
- Hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy.

Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddysgwyr i'w hysgol "berthnasol" os ydynt yn byw y tu hwnt i "bellter cerdded" i'r ysgol honno. Mae'r term ysgol "berthnasol" yn berthnasol i'r dalgylch neu'r ysgol brif ffrwd Gymraeg, Saesneg, ddwyieithog neu wirfoddol gymorthedig (ffydd) neu ysgol/dosbarth arbennig fel sy'n briodol.

Diffinnir y gyfraith sy'n ymwneud â "pellter cerdded" fel dwy filltir i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg gynradd a thair milltir i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg uwchradd.

Darpariaeth Cludiant am Ddim Disgresiynol

Y tu hwnt i'r isafswm statudol, mae'r Cyngor wedi penderfynu, wrth asesu hawl ar sail "pellter cerdded", i ddefnyddio'r pwerau disgresiynol a roddir iddo o dan ddarpariaethau'r Mesur i wneud darpariaeth fwy hael i ddysgwyr.

- Mae'r maen prawf cymhwysedd ar gyfer pellter cerdded i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd orfodol yn eu hysgol "berthnasol" wedi'i bennu fel 1.5 milltir, yn lle 2 filltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae'r maen prawf cymhwysedd ar gyfer pellter cerdded i ddysgwyr sy'n derbyn addysg uwchradd orfodol yn eu hysgol "berthnasol" wedi'i bennu ar 2 filltir, yn lle 3 milltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Darperir cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 sy'n cwrdd â'r maen prawf cymhwysedd 2 filltir am ddwy flynedd ar ôl diwedd addysg orfodol, yn hytrach na than ddiwedd addysg orfodol (y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin y flwyddyn ysgol y mae dysgwr yn cyrraedd y 16 oed) fel sy'n ofynnol gan y Mesur. Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i bresenoldeb amser llawn yn yr ysgol neu'r coleg perthnasol lle cynigir y cwrs astudio cymeradwy y maent am ei ddilyn.
- Darperir cludiant am ddim i'w hysgol "berthnasol" i ddysgwyr (fel y nodir uchod) yn unol â'r enwad crefyddol a ffefrir ganddynt.

Mae'r term ysgol "berthnasol" yn berthnasol i'r dalgylch neu'r ysgol brif ffrwd Gymraeg, Saesneg, ddwyieithog neu wirfoddol gymorthedig (ffydd) neu ysgol/dosbarth arbennig fel sy'n briodol.

Mae elfennau disgresiynol polisi'r Cyngor yn destun adolygiad a gellir eu dirwyn i ben. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn destun ymgynghori â dysgwyr a rhieni/gofalwyr ac, os bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â hwynt, byddant fel arfer yn berthnasol o ddechrau blwyddyn ysgol a byddant yn rhoi sylw i'r Ddarpariaeth Statudol Teithio i Ddysgwyr a'r Canllawiau Gweithredol - Mehefin 2014 neu hyr hyn sydd wedi'i ddisodli.

Darparu Cludiant

Trefnir darparu cludiant ysgol am ddim (fel y nodir uchod) i gyd-fynd â dechrau a diwedd y diwrnod ysgol arferol yn unig, nid amser cinio, ac fe'i darperir yn ystod y tymor ysgol.

Ni chaiff ei ddarparu ar gyfer apwyntiadau meddygol, casglu o'r ysgol neu'r coleg oherwydd salwch, gofynion cadw, ac amserlenni rhan amser neu arholiadau.

Pan fydd y Cyngor wedi trefnu i ddysgwr fynd i ysgol breswyl y tu allan i'r sir, dim ond ar ddechrau a diwedd pob hanner tymor y darperir cludiant.

Fel rheol, darperir cludiant o fannau codi mewn arosfannau bysiau cymeradwy ar y llwybr cludiant cyhoeddus agosaf i gartref y dysgwr.

Ni ddarperir cludiant i gyfeiriadau amgen i gyd-fynd gyda gwaith rhiant neu ymrwymadau eraill.

Ni fydd bob amser yn bosibl trefnu'r llwybrau i'n cerbydau dan gontract basio'n agos at gartref dysgwr. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd angen i rieni neu ofalwyr wneud trefniadau i'r dysgwr gyrraedd y man codi agosaf sydd ar gael ar y llwybr dan gontract a ddyrennir iddynt. Gwneir pob ymdrech i gadw'r pellter o dŷ dysgwr i'r man codi mor fyr â phosibl ac fel rheol ni fydd yn fwy na milltir.

Ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fel rheol darperir cludiant yn ôl a blaen o'r cyfeiriad cartref, gyda phob ymdrech yn cael ei gwneud i gasglu/gollwng wrth ymyl y ffordd. Mater i rieni/gofalwyr yw hebrwng/ cwrdd â'u plentyn/plant i/o'r cerbyd.

Ni fydd unrhyw drefniadau yn golygu y bydd y cludiant a ddarperir yn gweithredu ar ffyrdd heb eu mabwysiadu, tir preifat neu draciau mynediad fferm.

Bwriad y Cyngor yw darparu system gludiant a fydd yn ceisio cludo dysgwyr yn ddiogel, yn gyffyrddus a heb lefelau afresymol o straen.

Dewis Rhieni

Pe bai rhieni/gofalwyr yn dewis gosod eu plentyn/plant mewn ysgol heblaw'r ysgol "berthnasol" (Cymraeg, Saesneg, ddwyieithog neu ysgol brif ffrwd wirfoddol gymorthedig (ffydd), neu ysgol/dosbarth arbennig fel sy'n briodol) yna mae'r rhieni/gofalwyr hynny yn gwbl atebol i drefnu a thalu am gost cludiant i'r ysgol a ddewiswyd.

Cludiant i Blant ag Anghenion Ychwanegol

Darperir cludiant am ddim i'r holl ddisgyblion sy'n mynychu Canolfannau Adnoddau Arbennig a'n Hysgol Arbennig - Ysgol a Chanolfan Adnoddau Caeau'r Drindod, nad ydynt yn cael eu cynnal yn eu hysgolion eu hunain waeth beth fo'u pellter a'u hamgylchiadau teuluol. Mae darpariaeth arbennig yn cynnwys dosbarthiadau ar gyfer plant ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, anabledau corfforol ac anawsterau dysgu ychwanegol, anghenion dysgu cymhleth, nam ar eu clyw, anawsterau lleferydd ac iaith, cyfathrebu cymdeithasol ac awtistiaeth, anawsterau ymddygiad ac unedau cyfeirio disgyblion.

Cludiant i Ysgolion Cymraeg a Dwyieithog

Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ddarparu cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Polisi cyfredol y Cyngor yw bod dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol Gymraeg

neu ddwyieithog agosaf yn derbyn cludiant am ddim yn unol â pholisi cytunedig y Cyngor ar bellter cerdded (fel y nodir uchod).

Cludiant i Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig a Chytundeb Arbennig

Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ddarparu cludiant i ysgolion gwirfoddol cymorthedig (ffydd). Polisi cyfredol y Cyngor yw bod dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol gymorthedig wirfoddol enwebedig y rhieni/gofalwyr yn derbyn cludiant am ddim yn unol â pholisi disgresiynol cytunedig y Cyngor ar bellter cerdded (fel y nodir uchod).

Cludiant i ysgolion mewn Awdurdodau cyfagos

Mae disgyblion sy'n byw yn ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n mynychu ysgolion sydd wedi'u lleoli mewn awdurdodau cyfagos yn derbyn cludiant am ddim ar yr amod mai'r ysgol a fynychir yw'r ysgol berthnasol neu'r ysgol agosaf, a'u bod yn byw y tu hwnt i bellter cerdded (fel y nodir uchod).

Cludiant am resymau Meddygol

Gellir darparu cludiant am ddim i'r ysgol ac yn ôl am resymau meddygol e.e. salwch cronig neu anallu dros dro am gyfnodau byr ond parhaus, ar ôl derbyn argymhelliad ysgrifenedig gan Swyddog Iechyd/Meddygol priodol. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun a lle cytunir, bydd y ddarpariaeth hon yn destun adolygiad rheolaidd.

Rhaid i bob cais nodi:

- Natur y salwch neu'r analluogrwydd.
- Y rheswm y mae hyn yn effeithio ar deithio i'r ysgol.
- Maint yr effaith e.e. hyd disgwylidig.

Dim ond pan fydd plentyn yn mynychu ei ysgol 'berthnasol' neu lle mae'r plentyn wedi'i leoli mewn ysgol oherwydd ei anghenion meddygol y rhoddir ystyriaeth i gludiant am resymau meddygol.

Efallai na fydd cludiant ar ffurf cerbyd pwrpasol o gyfeiriad y tŷ lle gellir gwneud addasiad rhesymol i arferion arferol y Cyngor er mwyn diwallu anghenion penodol y dysgwr e.e. dyrannu sedd ar fws ysgol dan contract gerllaw.

Trefniadau Arbennig: Llwybrau Peryglus

Mae'r maen prawf a ddefnyddir i bennu'r cymhwysedd i dderbyn cludiant ysgol am ddim yn seiliedig ar bellter cerdded, wedi'i fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Ystyrir bod llwybr ar gael os yw'n ddiogel i ddysgwr gerdded ar ei ben ei hun neu, os yw'n briodol ar gyfer oedran y dysgwr, yng nghwmni oedolyn priodol. Cydnabyddir y bydd achlysuron yn codi pan all llwybrau ddod yn beryglus. Yn yr

amgylchiadau hyn, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddarparu cludiant ysgol am ddim dros bellteroedd sy'n is na'r terfynau dewisol os yw swyddogion priodol yn argymhell hyn er budd diogelwch y dysgwyr perthnasol.

Wrth bennu diogelwch cymharol llwybr cerdded, bydd y Cyngor yn cynnal asesiad o'r risgiau y gallai hebrwng rhieni/gofalwyr a dysgwyr eu hwynebu ar hyd y llwybr rhwng y cartref a'r ysgol. Bydd yr asesiad o lwybr yn digwydd ar adeg y dydd ac ar ddiwrnodau'r wythnos y byddai disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio'r llwybr. Bydd yn cymryd ymagwedd o ddiogelwch ar y ffyrdd ac yn dilyn Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar Asesu Risgiau Llwybr Cerdded i'r Ysgol.

Fel mater o bolisi, adolygir llwybrau a ystyrir yn beryglus bob dwy flynedd a gellir tynnu darpariaeth ddisgresiynol yn ôl lle mae'r perygl a nodwyd wedi'i liniaru a nodi bod y llwybr ar gael i gerdded yn ddiogel. Rhoddir o leiaf un rhybudd ymlaen llaw i rhieni/gofalwyr ynghylch tynnu cludiant disgresiynol o'r fath yn ôl.

Ysgolion wedi'u Gor-danysgrifio

Os na ellir derbyn dysgwr i'w ysgol "berthnasol" (y dalgylch neu'r ysgol brif ffrwd Gymraeg, Saesneg, ddwyieithog neu wirfoddol gymorthedig (ffydd) neu ysgol/dosbarth arbennig fel sy'n briodol) ac, o ganlyniad, mae'n rhaid iddo fynd i ysgol arall y tu hwnt i'r pellter cerdded o'u cartref yna darperir cludiant i'r ysgol "berthnasol" agosaf nesaf. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhoddir ystyriaeth i gludo brodyr a chwiorydd i'r un ysgol.

Darpariaeth wedi'i Gwarchod – Amrywiadau Dalgylchoedd

Pan fydd y Cyngor yn penderfynu amrywio'r dalgylch ar gyfer ysgol (ysgol brif ffrwd Gymraeg, Saesneg, ddwyieithog neu wirfoddol gymorthedig (ffydd) neu ysgol/dosbarth arbennig fel sy'n briodol), bydd y trefniadau cludiant presennol yn cael eu gwarchod ar gyfer y dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt. am hyd eu presenoldeb yn yr ysgol neu nes iddynt gyrraedd diwedd y cam hwnnw. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir ystyried cludo brodyr a chwiorydd i'r un ysgol.

Cludiant Consesiynol

O bryd i'w gilydd mae'n bosibl fod y niferoedd a gludwyd gan yr ALL yn is na nifer y seddi yn y cerbyd a ddefnyddiwyd. Mewn achosion o'r fath bydd yr ALL yn cadw'r hawl gan ddefnyddio'r pwerau priodol, i wneud yn sicr fod unrhyw seddi dros ben i blant sy'n mynychu eu hysgol briodol ac sy'n byw o dan y disgresiwn ar yr amod bod dim cost ychwanegol i'r awdurdod. Mae'n rhaid deall nad yw darpariaeth y cyfleuster hwn yn golygu rhwymedigaeth ar ran yr ALL a gall, gan ei fod yn hollol ddibynnol ar gynhwysedd y cerbyd a ddefnyddir, ddilyn i dynnu'r cyfleuster yn ôl ar fyr rybudd. Ni ellir ystyried cludiant consesiynol tan ar ôl yr ail wythnos ym Medi, nes i niferoedd cywir y disgyblion sy'n teithio drwy'r flwyddyn fod yn hysbys. Rhaid gwneud ceisiadau i'r swyddfeydd addysg yn ysgrifenedig yn rhoi manylion y disgybl a'r ysgol a fynychir nid yn hwyrach na'r trydydd dydd Llun ym Medi . Ystyrir pob cais a dderbynnir erbyn

y dyddiad hynny a chaiff unrhyw sedd wag eu dyrannu ar sail y preswylwyr hynny sy'n byw ym mhellach o'r ysgol. Caiff ceisiadau a dderbynnir ar ôl hynny eu hystyried, ar sail argaeledd.

Newid Cartref Teulu

Bydd disgyblion sy'n derbyn cludiant am ddim y mae eu teuluoedd yn symud i gyfeiriad y tu allan i ardal leol draddodiadol yr ysgol y darparwyd cludiant iddi yn cael ei hasesu yn unol â'r meini prawf cymhwysedd (fel y nodwyd uchod).

Mae angen i deuluoedd gofio am y ffaith hon pan fyddant yn ystyried symud cartref, yn enwedig os yw'r symudiad hwnnw'n digwydd yn ystod addysg gynradd, ym mlynnyddoedd saith, wyth neu naw o addysg uwchradd, neu ym mlynnyddoedd deuddeg a thair ar ddeg o addysg bellach.

Bydd disgyblion sy'n symud yn barhaol ar ôl hanner tymor mis Hydref ym mlwyddyn deg, a blwyddyn un ar ddeg yn cael tocyn bws neu drên am ddim i'w galluogi i gwblhau eu cwrs cyfredol yn yr un ysgol, ar yr amod eu bod yn mynychu eu hysgol "berthnasol" a'u bod bellach yn prswyllo y tu hwnt i'r pellter cerdded (fel y nodir uchod).

Preswyliaid Deuol

Lle mae gan ddisgybl fwy nag un cartref oherwydd nad yw rhieni'r plentyn yn byw gyda'i gilydd ond bod y plentyn yn byw'n rhannol gyda phob rhiant, neu gyda rhiant a hefyd mewn cartref plant, yna dylid ystyried y ddau le preswyl fel eu man preswyllo cyffredin. .

Dim ond trefniadau byw sefydledig parhaol fydd yn cael eu hystyried e.e. dysgwr sy'n aros dwy noson o bob wythnos ysgol gydag un person â chyfrifoldeb rhiant a thair noson o bob wythnos ysgol gyda'r llall, neu bob yn ail wythnos gyda phob rhiant. Nid yw trefniadau o'r fath yn berthnasol pan fydd dysgwr yn treulio penwythnosau gyda rhiant gwahanol i'r man lle mae'r dysgwr yn byw yn ystod yr wythnos ysgol. Nosweithiau'r wythnos ysgol yw nos Sul/bore Llun i nos Iau/bore Gwener yn gynhwysol.

Os yw cyfeiriad yr ail gartref:

- Uwchlaw'r pellter disgresiynol - Bydd ganddynt hawl i gludiant am ddim am y diwrnodau y byddant yn teithio ar y llwybr hwnnw.
- O dan y pellter disgresiynol - Ni ddarperir unrhyw gludiant.

Pan fydd gan blentyn ddau le preswyliaid arferol mewn dau awdurdod lleol gwahanol, yna bydd pob un o'r awdurdodau lleol hynny yn gyfrifol am drefniadau teithio'r plentyn pan fydd yn ei ardal. Pan fydd disgyblion yn mynychu, o ganlyniad i ddewis rhieni, ysgol, nad yw'n ysgol berthnasol iddynt, rhaid deall bod rhieni'n derbyn cyfrifoldeb llawn am drefniadau cludiant. Bydd hyn yn cynnwys gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol yn ogystal â thalu'r gost.

Monitro

Bydd pob cerbyd ar gael i'w wirio ar hap gan y DVSA neu gorff priodol arall, pan fydd angen. Ymchwilir ar unwaith i unrhyw gwynion a dderbynnir gan yr ALI oddi wrth rieni ynghylch gwasanaethau neu gerbydau. Os bydd y gŵyn yn cael ei chadarnhau, cymerir camau yn unol â thelerau contract y gweithredwr. Bydd yr ALI yn cynnal gwiriadau ar hap ar gontractau, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r contractau, mewn modd sy'n dderbyniol i'r ALI.

Dull Teithio

Ym mhob achos, bydd defnyddio adnoddau'n effeithlon yn pennu'r dull cludo a ddarperir (yn ddarostyngedig i unrhyw ofynion anghenion ychwanegol). Gellir darparu cludiant trwy gyfrwng gwasanaethau cludiant ysgol dan gontract neu wasanaethau cludiant cyhoeddus presennol a fydd, ynghyd â maint a'r fath o gludiant (bws, bws mini, trên, tacsî, ayb) yn dibynnu ar gost-effeithiolrwydd. Mewn achosion eithriadol, cynigir ad-daliadi ddysgwr neu riant lle mai hwn yw'r dull mwyaf cost-effeithiol o ddarparu cludiant. Mae darpariaethau Adran 88 Deddf Trafnidiaeth 1985 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau, er budd ei breswylwyr, y gwerth gorau am arian o wariant ar gludiant teithwyr cyhoeddus yn ei gyfanrwydd. Felly bydd y Cyngor yn ymwybodol o'i ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau bws neu drên sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol (cludiant cyhoeddus) wrth drefnu darpariaeth drafnidiaeth i ddysgwyr.

Amseroedd Teithio

Nid yw'r Cyngor yn nodi terfyn amser ar gyfer teithiau. Fodd bynnag, dylai amseroedd teithio fod yn rhesymol, gan ystyried oedran ac anghenion unigol y dysgwyr, a natur, pwrpas ac amgylchiadau pob taith. Pan fydd rhieni/gofalwyr yn mynegi hoffterau i'w plant fynd i ysgolion Cymraeg/dwyieithog neu ysgolion gwirfoddol cymorthedig (ffydd) sydd gryn bellter i ffwrdd o'u cartrefi, gall teithiau fod yn hirach yn gyffredinol. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i rai teithiau ADY.

Darpariaeth ar gyfer Dysgwyr 16-19 oed

Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ddarparu cludiant i ddysgwyr ôl-16. Polisi cyfredol y Cyngor yw y bydd dysgwyr ôl-16, sy'n mynychu cwrs astudio amser llawn yn eu hysgol neu goleg agosaf neu ddalgylch lle mae'r cyrsiau amserlen cymeradwy yn cael eu hastudio, yn gymwys i gael cludiant am ddim, yn unol â pholis cytunedig y Cyngor ar bellter cerdded (fel y nodir uchod). Mae cwrs amser llawn yn cael ei bennu fel un sy'n gofyn am bresenoldeb 16 awr neu fwy yr wythnos.

Os yw'r un cyrsiau ar gael mewn nifer o ysgolion/campysau, dim ond i'r ysgol/campws agosaf y darperir cludiant am ddim, oni bai bod y cwrs/cyrsiau yn yr ysgol/campws agosaf yn llawn. Swyddogion fydd yn penderfynu ar hyn.

Disgwylir i ddysgwyr o fewn y pellter 2 filltir, sy'n dewis cofrestru mewn ysgol/campws sydd ymhellach i ffwrdd, pan yw lleoedd ar gael yn yr ysgol/campws agosaf, wneud eu trefniadau teithio eu hunain.

Ni ddarperir unrhyw gludiant i ddysgwyr y tu hwnt i'r ail flwyddyn academiaidd ar ôl diwedd addysg orfodol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir darparu cludiant tan ddiwedd y flwyddyn academiaidd pan fydd dysgwr yn cyrraedd ei ben-blwydd yn 19 oed. Cyfrifoldeb y dysgwr yw trefniadau teithio mewn perthynas ag unrhyw bresenoldeb dilynol

Mae'r polisi cludiant hwn yn cynnwys cyrsiau addysg bellach amser llawn 6ed dosbarth ysgol a choleg a gymeradwywyd gan Gymwysterau Cymru yn unig ac nid yw'n ymestyn i gyrsiau addysg uwch a ariennir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW).

Dalgylch Coleg Gwent

Mae pob disgybl sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol a rhestrir trosodd o fewn yr ardal dalgylch Coleg Trydyddol Gwent ar gyfer Addysg Ôl-16. Serch hynny, bydd disgyblion dim ond yn gymwys am gludiant am ddim os ydynt yn mynychu'r campws agosaf sy'n cynnig y cwrs.

- Ysgol Gyfun Coed Duon
- Ysgol Uwchradd Islwyn
- Ysgol Gyfun Trecelyn
- Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga
- Ysgol Gyfun Cwm Rhymni - (Ardal Islwyn)

Os yw disgyblion sy'n byw o fewn yr ardaloedd dalgylch hyn yn dewis mynychu sefydliad addysg arall, bydd cymorth ond yn cael ei ddarparu os yw'r disgybl yn mynychu'r sefydliad addysg agosaf i'w cartref sy'n cynnig y cwrs.

Bydd y cyfyngiadau milltired yr un peth a'r sawl sy'n berthnasol i ddisgyblion ysgol. Mae'r trefniadau fel y penodwyd ar gyfer ysgolion uchod, yn berthnasol i'r un graddau i fyfyrwyr coleg.

Dalgylch Coleg Ystrad Mynach

Mae pob disgybl sy'n byw o fewn ardal dalgylch yr ysgolion a rhestrir isod hefyd o fewn ardal dalgylch Coleg Ystrad Mynach ar gyfer Addysg Ôl-16.

- Ysgol Idris Davies 3 - 18
- Ysgol Gyfun Heolddu
- Ysgol Lewis Pengam
- Ysgol Gyfun Lewis i Ferched
- Ysgol Gyfun Bedwas
- Ysgol Gyfun Martin Sant

- Ysgol Gymunedol Cenydd Sant
- Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (Ardal Cwm Rhymni)

Os yw disgyblion sy'n byw o fewn yr ardaloedd dalgylch hyn yn dewis mynychu sefydliad addysg arall yn hytrach na Choleg Ystrad Mynach neu ysgol gyfun dalgylch, bydd cymorth ond yn cael ei ddarparu os yw'r myfyriwr/wraig yn mynychu sefydliad addysg agosaf i'w cartref sy'n cynnig y cwrs.

Bydd y cyfyngiadau milltired yr un peth â'r rhai sydd yn berthnasol i ddisgyblion ysgol. Bydd y trefniadau a nodwyd i'r ysgolion uchod, yn berthnasol i'r un graddau i fyfyrwyr coleg.

Grant Teithio

Os nad oes cwrs astudio ar gael yn lleol (h.y yn yr ysgol neu'r coleg 'perthnasol', fel y bo'n briodol) mae grant cludiant o £363 ar gael.

Mae'r grant cludiant hwn yn daladwy mewn 6 rhandaliad o £60.50. Telir y grant cludiant ar ddiwedd pob hanner tymor/tymor unwaith y derbynir cadarnhad o bresenoldeb parhaus.

Lwfans Petrol

Gall myfyrwyr sy'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer y ddarpariaeth o gludiant am ddim i'w sefydliad addysg ddewisol wneud cais am lwfans petrol.

Mae Lwfans Petrol yn cael ei dalu ar gyfradd o bymtheg ceiniog y filltir. Os yw myfyriwr/wraig yn dymuno gwneud cais am lwfans petrol, wedyn dylent roi llythyr cymorth gyda'u cais sy'n nodi pam nad ydynt yn gallu teithio ar y cludiant penodedig. Fel arfer, bydd lwfans petrol dim ond yn daladwy mewn amyglchiadau lle nad yw'r cerbyd sydd wedi'i gontractio na'r cludiant cyhoeddus yn addas. Mae lwfans petrol awdurdodedig yn daladwy ar ddiwedd pob hanner tymor/tymor

Dysgu yn Seiliedig ar Waith

Nid yw'r Awdurdod yn darparu cymorth i'r myfyrwyr hynny ar gyrsiau dysgu wedi'u seilio ar waith. Dylai myfyrwyr gysylltu â'r darparwr a all efallai gynnig cymorth.

Gall dysgwyr ôl-16 fod yn gymwys ar gyfer y Lwfans Cynhaliadaeth Addysg (LCA), a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a weinyddir ar eu rhan gan Cyllid Myfyrwyr Cymru. Bwriad yr LCA yw cefnogi dysgwyr ôl-16 i gael mynediad i addysg ôl-16. Mae manylion i bennu cymhwysedd ar gyfer LCA ar gael ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru yn <https://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/ab/lca.aspx>

Y Cod Ymddygiad wrth Deithio

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun "Y Cod Ymddygiad wrth Deithio" i hyrwyddo teithio diogel i bob plentyn a pherson ifanc, trwy nodi'r safonau ymddygiad sy'n ofynnol wrth deithio rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r cod yn berthnasol i bob dull o deithio i ac o sefydliadau addysg, a rhaid i ddysgwyr gydymffurfio â'r cod wrth deithio i'w man dysgu ac oddi yno.

Mae'r cod hwn yn nodi'r safonau ymddygiad y disgwylir gan ddysgwr wrth deithio i ac oddi wrth eu man dysgu ac mae'n annog ysgolion a Chynghorau i weithio'n rhagweithiol gyda dysgwyr, eu rhieni/gofalwyr a'r gymuned i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.

Dylai rhieni sicrhau bod y dysgwr/wraig yn deall y cod a rhaid annog ymddygiad da. Mae'n orfodol gwisgo gwregys diogelwch ar gludiant ysgol prif ffrwd pwrpasol. Gofynnir i rieni/gofalwyr bwysleisio pwysigrwydd gwisgo gwregys diogelwch i'w plentyn/plant.

Mewn achos lle nad yw dysgwr/wraig yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad wrth Deithio, gall y Cyngor dynnu hawl unigolyn i gludiant am ddim yn ôl am gyfnod. Mewn achos o gludiant yn cael ei dynnu'n ôl oddi wrth ddysgwr/wraig, cyfrifoldeb rhieni'r dysgwyr yw trefnu cludiant i'r man dysgu ac yn ôl.

Apeliadau

Fe ddylech wneud unrhyw apeliadau yn erbyn gwrthodiad caniatáu cludiant am ddim yn ysgrifenedig i'r Uned Cludiant Integredig, yn rhoi'r manylion llawn ar gyfer ystyriaeth. Caiff ystyriaeth hefyd ei rhoi i geisiadau unigol ysgrifenedig am gludiant dewisol tu allan i'r meini prawf polisi arferol. Caiff y rhain eu hystyried ar eu telerau unigol ac o dan amgylchiadau eithriadol, caiff cludiant ei darparu tu allan i'r meini prawf polisi arferol. Os oes gennych unrhyw bryderon am gludiant ysgol, dylech gysylltu â'r Uned Cludiant Integredig.

I gael rhagor o wybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau trafndiaeth ysgolion, cysylltwch â'r Uned Cludiant Integredig yn cludiantaddysg@caerffili.gov.uk neu 01443 864810.

Section 11 – Gwasanaeth Lles Addysg

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn wasanaeth cymorth arbenigol ac yn darparu amrediad eang o wasanaethau i blant, teuluoedd ac ysgolion, yn ogystal ag ymgymryd â nifer o swyddogaethau statudol yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae rôl ganolog y Gwasanaeth Lles Addysg yn canolbwyntio ar y problemau cymdeithasol, emosiynol ac addysgol a all effeithio ar allu plentyn i fanteisio ar y cyfleoedd addysgol a gynigir o ganlyniad i bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Bydd y Swyddog Lles Addysg yn cysylltu'n rheolaidd rhwng yr ysgol a'r cartref er mwyn cynnig cymorth ac arweiniad priodol.

Rôl a nodau'r Gwasanaeth Lles Addysg yw:

- Cefnogi ysgolion a rhieni yn eu hymdrechion i gynnal presenoldeb rheolaidd pob disgybl.
- Dyfeisio a gweithredu strategaethau wedi'u hanelu at wella presenoldeb.
- Sicrhau bod yr ALI yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ynghylch presenoldeb ysgol, gwahardd disgyblion, a chyflogi disgyblion.
- Cyfrannu, ble'n berthnasol, ym mhroses asesu'r plant hynny gydag anghenion addysgol arbennig.
- Cynnig cymorth a chynghor i deuluoedd ar faterion sy'n gysylltiedig â chludiant ysgol, prydau bwyd, a dillad a'u hawliau o fewn yr amryw Ddeddfau Addysg.
- Darparu cyswllt allweddol rhwng teuluoedd, ysgolion a'r ALI gydag asiantaethau eraill megis Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, yr Heddlu a'r Awdurdod Iechyd Ardal.
- Atal camddefnyddio plant mewn cyflogaeth ac adloniant.

Gellir cysylltu trwy'r swyddogion canlynol:

Louise Pine – Prif Swyddog Lles Addysg De Caerffili – 07955 433249

Claire Ingram – Swyddog Lles Addysg Arweiniol Gogledd Caerffili – 07955 433247

E-bost: addysglles@caerffili.gov.uk

Gwyliau teulu yn ystod y tymor

Cynghorir rhieni nad oes ganddynt yr hawl awtomatig i dynnu eu plant o'r ysgol er mwyn cael gwyliau pan fo'r ysgolion ar agor. Rhaid gwneud cais ymlaen llaw i'r Pennaeth, a fydd yn ystyried ffactorau perthnasol megis:

- Oedran y plentyn.
- Pryd yn y flwyddyn y mae'r daith arfaethedig.
- Natur y daith a dymuniadau'r rhieni.
- Patrwm presenoldeb gyfan y plentyn

Lle nad yw ysgol yn dyfarnu absenoldeb ac mae'r plentyn dal yn mynd i ffwrdd, caiff yr absenoldeb ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig a gall arwain at rhoi hysbysiad cosb benodedig. Lle rhoddir caniatâd, os yw'r rhieni yn methu â chadw at y cytundeb gyda'r ysgol a chedwir y plentyn i ffwrdd am gyfnod sy'n fwy na'r cyfnod cytunedig, caiff unrhyw amser ychwanegol ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig



Section 12 – Gwasanaethau Addys gar draws Gymuned

Llyfrgelloedd

Mae 18 o lyfrgelloedd yn y Fwrdeistref Sirol sy'n cynnig ystod eang o gyfleusterau: mynediad Wi-Fi am ddim, cyfrifiaduron cyhoeddus a stoc o lyfrau.

Dysgu Cymunedol I Oedolion

Mae Dysgu Cymunedol i Oedolion Caerffili wedi'i leoli yn Nhy Rhydychen yn Rhisga ac mae'n cyflwyno dosbarthiadau i oedolion ledled bwrdeistref Caerffili. Mae ein dosbarthiadau a chlybiau yn cynnwys cyrsiau Cyflogadwyedd (Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd, Codi a Chario), Cyfrifiaduron, Addysg Gyffredinol (cymhwyster Addysgu sylfaenol, Cynorthwyydd Addysgu), Celf, Crefftau, Crochenwaith, Gwisgo, leithoedd a Sgiliau Hanfodol (Llythrennedd, Rhifedd, Sgiliau Digidol ac ESOL).

Cyswllt: 01633 612245

lcoxford@caerffili.gov.uk

Cymorth Cyflogaeth

Mae cymorth cyflogaeth yn y fwrdeistref yn helpu pobl i ddod o hyd i waith, uwchsgilio a newid gyrfaoedd. Os nad ydych chi'n gweithio ar hyn o bryd, gallwch chi gael help i ddiweddarw eich CV, llenwi ffurflenni cais, ymarfer sgiliau cyfweliad, ac ennill cymwysterau sy'n berthnasol i waith. Os ydych chi'n gweithio, gallwn ni eich cynorthwyo i ennill cymwysterau i sicrhau rhagor o oriau neu swydd â chyflog gwell, neu ailhyfforddi i newid eich gyrf. Mae ein Swyddogion Cyswllt Busnes yma i helpu unrhyw un sy'n cael cymorth gan Dîm Cymorth Cyflogaeth Caerffili, i ddod o hyd i swyddi gwag addas i gyd-fynd â'u nodau gyrf.

Y Gwasanaeth Ieuenctid

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed drwy amrywiaeth o brosiectau a 21 clwb ieuenctid sydd wedi eu lleoli mewn cymunedau ledled y fwrdeistref. Mae gan Weithwyr Ieuenctid berthynas unigryw â phobl ifanc, sy'n eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol, goresgyn rhwystrau a gwireddu eu potensial.

Am wybodaeth bellach am wasanaethau ieuenctid ffoniwch 01443 863197.



Section 13 – Gwasanaethau Prydau Ysgol

Prydau Ysgol am Ddim - Gwybodaeth i Rieni a Gwarcheidwaid

Bydd pob plentyn **ysgol gynradd** yng Nghymru yn cael prydau ysgol am ddim erbyn 2024. Mae'r ymrwymiad hwn mewn ymateb i'r pwysau cynyddol o ran costau byw ar deuluoedd a'n huchelgeisiau o fynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn mynd heb fwyd yn yr ysgol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi'r cynllun ar waith cyn gynted â phosibl.

Mae manteision ehangach hefyd i brydau ysgol am ddim, gan gynnwys hyrwyddo bwyta'n iach ar draws yr ysgol, cynyddu'r amrywiaeth o fwyd y gall dysgwyr ei fwyta, gwella sgiliau cymdeithasol amser bwyd, yn ogystal â gwella ymddygiad a chyrhaeddiad.

Os yw'ch plentyn chi'n mynychu ysgol gynradd, gweler tudalen 84 am weithrediad a gwybodaeth am Brydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd.

Sylwer nad yw derbyn Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd yn eich gwneud chi'n gymwys i gael Grant Hanfodion Ysgol. Dim ond ar gyfer plant y mae eu teuluoedd ar incwm is ac sy'n gymwys ar gyfer rhai budd-daliadau penodol y mae'r grant hwn yn gymwys. Darllenwch yr adran o'r enw "Pwy sy'n gymwys?" i gael rhagor o wybodaeth am Brydau Ysgol am Ddim Cymwys.

Pwy sy'n gymwys?

Mae'n bosibl y gall eich plentyn gael prydau ysgol am ddim os ydych chi'n cael unrhyw un o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag Incwm
- Cymorth o dan Ran VI o'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Credyd Treth Plant (ar yr amod nad oes gennych chi hawl i gael Credyd Treth Gwaith hefyd ac nad yw eich incwm blynyddol chi'n fwy nag £16,190 cyn treth)
- Yr Elfen Warantedig o Gredyd Treth Pensiwn
- Credyd Treth Gwaith am gyfnod ychwanegol - a delir am 4 wythnos pan nad ydych chi'n gymwys i gael Credyd Treth Gwaith mwyach
- Credyd Cynhwysol - rhaid i incwm eich aelwyd chi fod yn llai na £7,400 y flwyddyn ar ôl treth. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw incwm o fudd-daliadau.

Yr awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn mynd i'r ysgol (nid lle mae'r disgybl yn byw) sy'n gyfrifol am y canlynol:

- darparu'r prydau ysgol am ddim
- asesu cymhwysedd

Mae deddfwriaeth prydau ysgol am ddim yn galluogi rhieni maeth i hawlio prydau ysgol am ddim. Cyn belled â bod rhiant yn gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim, gall y plentyn eu cael nhw. Mae'n bosibl y gall fod gan blentyn bedwar rhiant; dau riant maeth a dau riant naturiol.

Amddiffyniad wrth bontio

Ar 1 Ebrill 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reolau newydd ar gyfer hawlio prydau ysgol am ddim. Oherwydd hyn, gallai nifer gymharol fach o blant a phobl ifanc fod wedi colli eu cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Cafodd 'amddiffyniad wrth bontio' ei gyflwyno er mwyn sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn parhau i gael prydau ysgol am ddim am gyfnod cyfyngedig o amser.

Prydau Ysgolion Uwchradd

Gall disgyblion ysgolion uwchradd ddewis o ddetholiad dyddiol o brydau poeth ac oer.

Gall y dewisiadau gynnwys tatws pob, baguettes wedi'u llenwi, brechdanau, tortilas gyda ffrwythau ffres a diodydd. Mae dŵr ar gael am ddim.

Mae Ysgol Gyfun Martin Sant, Ysgol Lewis Pengam, Ysgol Trecelyn a Champws Gellihaf Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cynnig trefniadau prydau amgen. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r ysgolion hyn yn uniongyrchol.

Mae rhieni sy'n dymuno i'w plentyn gymryd pecyn cinio ei hun yn gallu gwneud hynny, a bydd seddi addas amser cinio. Mae dŵr ffres ar gael i bob disgybl.

Prydau Ysgolion Cynradd

Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, mae Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau a chyllid i gynnig prydau ysgol maethlon am ddim i bob disgybl ysgol gynradd yng Nghymru erbyn 2024.

Gweler yr amserlen isod ar gyfer cyflwyno'r cynllun hwn – nodwch bod hyn yn amodol ar ddiwrnodau mewnosod ar gyfer pob ysgol:

Gwybodaeth am Brydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd

Meithrin 3 – 4 oed

Yn fyw ers 7 Tachwedd 2022

Bydd pob disgybl oedran meithrin cofrestredig sy'n mynychu ysgol a gynhelir am sesiwn amser llawn, h.y. yn mynychu meithrinfa AM a PM, yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim pan fyddan nhw'n bresennol ar y diwrnodau hynny.

Y dull talu a ffefrir am brydau ysgol yw ap UPAY. *Cysylltwch â'ch ysgol am ddulliau talu eraill.*

Gall rhieni lawrlwytho'r ap, i weld beth gafodd eu plentyn i ginio

Derbyn – 4 to 5 oed

Yn fyw ers 2 Medi 2022

Gall rhieni lawrlwytho'r ap, i weld beth gafodd eu plentyn i ginio

Blwyddyn 1 – 5 to 6 oed

Yn fyw ers 2 Medi 2022

Gall rhieni lawrlwytho'r ap, i weld beth gafodd eu plentyn i ginio

Blwyddyn 2 – 6 to 7 oed

Yn fyw ers 2 Medi 2022

Gall rhieni lawrlwytho'r ap, i weld beth gafodd eu plentyn i ginio

Blwyddyn 3 – 7 to 8 oed

Medi 2023

Ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgolion Arbennig - Bydd cymhwysedd ar gyfer y cynllun Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd yn seiliedig ar y grŵp blwyddyn y mae disgybl yn cael ei addysgu ynddo ar hyn o bryd, nid ei grŵp blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol ar sail oed neu 'ddisgwyliedig'. Up to Sep 2023: Sylwch y gall y dyddiadau hyn newid yn dibynnu ar unrhyw amgylchiadau annisgwyl a allai godi

Hyd at fis Medi 2023:

Y dull talu a ffefrir am brydau ysgol yw ap UPAY. *Cysylltwch â'ch ysgol am ddulliau talu eraill.*

O fis Medi 2023: gall rhieni lawrlwytho'r ap, i weld beth gafodd eu plentyn i ginio

Blwyddyn 4 – 8 to 9 oed

Ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgolion Arbennig - Bydd cymhwysedd ar gyfer y cynllun Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd yn seiliedig ar y grŵp Blwyddyn y mae disgybl yn cael ei addysgu ynddo ar hyn o bryd, nid ei grŵp blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol ar sail oed neu 'ddisgwyliedig'.

Hyd at fis Medi 2023:

Y dull talu a ffefrir am brydau ysgol yw ap UPAY. *Cysylltwch â'ch ysgol am ddulliau talu eraill.*

O fis Medi 2023: gall rhieni lawrlwytho'r ap, i weld beth gafodd eu plentyn i ginio

Blwyddyn 5 – 9 to 10 oed

Ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgolion Arbennig - Bydd cymhwysedd ar gyfer y cynllun Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd yn seiliedig ar y grŵp Blwyddyn y mae disgybl yn cael ei addysgu ynddo ar hyn o bryd, nid ei grŵp blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol ar sail oed neu 'ddisgwyliedig'.

Sylwch y gall y dyddiadau hyn newid yn dibynnu ar unrhyw amgylchiadau annisgwyl a allai godi.

Hyd at fis Medi 2023:

Y dull talu a ffefrir am brydau ysgol yw ap UPAY. *Cysylltwch â'ch ysgol am ddulliau talu eraill.*

O fis Medi 2023: gall rhieni lawrlwytho'r ap, i weld beth gafodd eu plentyn i ginio.

Blwyddyn 6 – 10 to 11 oed

Ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgolion Arbennig - Bydd cymhwysedd ar gyfer y cynllun Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd yn seiliedig ar y grŵp Blwyddyn y mae disgybl yn cael ei addysgu ynddo ar hyn o bryd, nid ei grŵp blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol ar sail oed neu 'ddisgwyliedig'.

Hyd at fis Medi 2023:

Y dull talu a ffefrir am brydau ysgol yw ap UPAY. *Cysylltwch â'ch ysgol am ddulliau talu eraill.*

O fis Medi 2023: gall rhieni lawrlwytho'r ap, i weld beth gafodd eu plentyn i ginio

Blwyddyn 7 i Flwyddyn 13 – 11 to 18 oed

Ddim yn berthnasol

Nid yw'r cynllun yn berthnasol i'r grwpiau blwyddyn hyn.

Y dull talu a ffefrir am brydau ysgol yw ap UPAY. *Cysylltwch â'ch ysgol chi am ddulliau talu eraill.*

Cymhwysedd Prydau Ysgol am Ddim a Phrydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd - Deall y gwahaniaeth

Mae yna deuluoedd sydd eisoes yn derbyn prydau ysgol am ddim ac mae'n bwysig deall y gwahaniaeth rhwng y ddau gynllun.

Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (UPFSM)

Nod Llywodraeth Cymru yw y bydd pob plentyn mewn ysgol gynradd yng Nghymru yn gymwys i gael Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (UPFSM) erbyn 2024, waeth beth fo incwm y cartref.

Sylwer nad yw derbyn Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd yn eich gwneud chi'n gymwys i gael Grant Hanfodion Ysgol. Dim ond ar gyfer plant y mae eu teuluoedd ar incwm is ac sy'n gymwys ar gyfer rhai budd-daliadau penodol y mae'r grant hwn yn gymwys. Darllenwch yr adran o'r enw "Pwy sy'n gymwys?" i gael rhagor o wybodaeth am Brydau Ysgol am Ddim Cymwys.

Cymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (eFSM)

Mae teuluoedd sy'n bodloni meini prawf penodol, er enghraifft y rhai ar incwm is neu'n cael budd-daliadau penodol, yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae teuluoedd sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim hefyd yn gymwys i gael y Grant Hanfodion Ysgol i brynu gwisg ysgol, offer, gwisg chwaraeon ac offer ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. Mae hyn hefyd o fudd uniongyrchol i'r ysgol y mae'r disgybl yn ei mynychu. O dan y cynllun Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd newydd, ni fydd y budd-daliadau hyn yn cael eu heffeithio.

Mae yna broses ymgeisio ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim ac mae'n bwysig, pan fydd y cynllun newydd yn cael ei gyflwyno, bod teuluoedd cymwys yn parhau i ddilyn proses ymgeisio Prydau Ysgol am Ddim er mwyn peidio â cholli allan ar fudd-daliadau eraill.

Prydau Ysgolion Cynradd – Bwydlen

Mewn Ysgolion Cynradd, mae'r fwydlen yn cael ei gwerthu am y pris pryd penodol (gweler yr amserlen uchod ar gyfer cyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd a Phrydau Ysgol am Ddim).

Mae dewisiadau o brydau ar gael mewn nifer o ysgolion, sy'n arlwyo ar gyfer gwahaniaethau mewn blas yn ogystal â deiet yn ymwneud â hil neu grefydd ac anghenion deietegol.

Mae rhieni sy'n dymuno i'w plentyn gymryd pecyn cinio ei hun yn gallu gwneud hynny, a bydd seddi addas amser cinio.

Mae dŵr ffres ar gael i bob disgybl.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.caerffili.gov.uk neu gysylltu â'r Gwasanaethau Arlwyo 01495 221058. Ebst- arlwyo@caerffili.gov.uk